# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Liz Wilkinson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6361

SeneddNHAMG@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (13.30-13.45)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

## Cyfarfod cyhoeddus (13.45-15.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.45)

### 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(13:45-14:30) (Tudalennau 1 - 36)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

Dogfennau atodol:

Papur gan Lywodraeth Cymru – Cyllideb ddrafft 2021-22

Papur gan Lywodraeth Cymru – Tabl o linellau gwariant yn y gyllideb (Saesneg yn unig)

## Egwyl (14.30-14.40)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(14:40-15:30)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

## 4 Papurau i'w nodi

(15:30)

### 4.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch trefniadau dros dro ar gyfer llywodraethu amgylcheddol

(Tudalennau 37 - 38)

Dogfennau atodol:

Llythyr

### 4.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Llywydd ynghylch trefniadau dros dro ar gyfer llywodraethu amgylcheddol

(Tudalennau 39 - 40)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.3 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Amgylchedd**

(Tudalennau 41 - 42)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.4 Gohebiaeth rhwng Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir Senedd yr Alban a'r Cadeirydd ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU**

(Tudalennau 43 - 46)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Senedd yr Alban (Saesneg yn unig)

Ymateb gan y Cadeirydd at Senedd yr Alban (Saesneg yn unig)

**4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)**

(Tudalennau 47 - 48)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.6 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin at y Gweinidog Gwladol dros Dai ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)**

(Tudalennau 49 - 50)

Dogfennau atodol:

Llythyr (Saesneg yn unig)

**4.7 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Bil Amaethyddiaeth y DU - Trydydd darlleniad**

(Tudalennau 51 - 53)

Dogfennau atodol:

Llythyr

4.8 **Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU**

(Tudalennau 54 - 56)

Dogfennau atodol:

Llythyr

4.9 **Gohebiaeth ychwanegol rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

(Tudalennau 57 - 58)

Dogfennau atodol:

Llythyrau

4.10 **Gohebiaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

(Tudalennau 59 - 62)

Dogfennau atodol:

Llythyr (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## Cyfarfod preifat (15:30-16:00)

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

## 7 Sesiwn friffio gyfreithiol a thrafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch Bil Amgylchedd y DU

(Tudalennau 63 - 73)

Dogfennau atodol:

Nodyn cyfreithiol (Saesneg yn unig)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)

## 8 Trafod llythyr drafft ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

(Tudalennau 74 - 104)

Dogfennau atodol:

Llythyr drafft (Saesneg yn unig)

Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Cadeirydd

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Iau 14 Ionawr 2021** |
| **Amser:** | **13:45 – 15:15** |
| **Teitl:** | **Papur tystiolaeth: Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch cynigion MEG (Prif Grŵp Gwariant) yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae hefyd yn darparu diweddariad ynghylch meysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22.

3. Caiff ffigurau'r gyllideb ddrafft eu crynhoi fel a ganlyn:

**Tabl 1. Crynodeb o'r newidiadau i Gyllideb Ddrafft MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar gyfer 2021-22**

| **MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | | | **£m** |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb ar gyfer yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | **Ailddatganwyd 2020-21 £m** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m** |
| DEL Adnoddau | 475.482 | 32.077 | 507.559 |
| DEL Anariannol | 21.675 | 0.000 | 21.675 |
| DEL Cyfalaf | 154.892 | 35.000 | 189.892 |
| **Cyfanswm DEL** | **652.049** | **67.077** | **719.126** |
| | | | |
| AME Adnoddau | 2.400 | | 2.400 |
| **Cyfanswm AME** | **2.400** | | **2.400** |

Nodyn: 'Ailddatganwyd 2020-21' yw'r gyllideb Derfynol ar gyfer Cyllid Pontio afreolaidd yr UE

4. Er mwyn gallu dwyn cymhariaeth gyfatebol rhwng cyllidebau drafft 2021-22 â'r cyllidebau terfynol a ailddatganwyd ar gyfer 2020-21, bydd y tabl

atodedig lle dangosir y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn dangos yr holl symudiadau o MEG i MEG ac o fewn MEG.

**Cyd-destun Strategol Cyllideb Drafft 2021-22**

5. Yng ngoleuni argyfwng y Coronafeirws, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Wariant blwyddyn ym mis Tachwedd yn hytrach na chynnal yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant aml-flwyddyn y bwriadwyd ei gynnal. Dim ond ein setliad ar gyfer 2021-22 a bennwyd yn yr adolygiad hwn o wariant. Roeddem wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i roi sicrwydd ariannol tymor hwy i'n partneriaid, ond yn awr dim ond ar gyfer blwyddyn y gallwn osod cynlluniau refeniw a chyfalaf.

6. Ein dull gweithredu, felly, fu ceisio cynyddu effaith yr adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod y bydd yn rhaid i ni barhau i ddelio ag effaith y pandemig ochr yn ochr ag ysgogi newid tymor hwy. Dengys y dyraniadau sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i **Ddiogelu** iechyd y cyhoedd a swyddi wrth i ni barhau i ymladd yn erbyn y pandemig, **Adeiladu** dyfodol gwyrddach a chyflwyno **Newidiadau** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal. Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'n dull o ddyrannu cyllid a'n cynigion ar gyfer y gyllideb.

7. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cymru wedi wynebu ansicrwydd a heriau, nid yn unig yn sgil y pandemig Covid-19, ond hefyd o ganlyniad i'r cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr. Rydym wedi cael ein siomi gan ddiffyg tryloywder a diffyg ymgysylltu ystyrlon Llywodraeth y DU ynglŷn â materion pontio a chyllid i ddisodli cyllid rhaglenni'r UE, ac rydym wedi ein siomi fwy fyth gan fethiant Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiad i ddisodli cyllid yr UE yn llwyr yn ystod yr Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020.

8. Hyd yn oed pan gawsom gyllid yn yr Adolygiad o Wariant, mae'r cyllid a gafwyd gan Lywodraeth y DU i ddisodli'r cyllid i ffermwyr £137m yn llai na'r hyn y byddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22, a bydd hyn yn cael effaith ar ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig. Bydd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y DU yn werth £220 miliwn yn unig y flwyddyn nesaf, a hynny ar gyfer y DU i gyd – lleihad sylweddol o gymharu â'r swm o £375m y flwyddyn mae Cymru ar ei phen ei hun yn elwa arno ar hyn o bryd trwy gyfrwng Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

9. O ran pysgodfeydd, bydd y cyllid o £2.1m rydym wedi'i gael yn helpu'r sector morol a physgodfeydd i ryw raddau, sef sector sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE. Caiff y cyllid rydym wedi'i gael ar gyfer pysgodfeydd a chymorth i ffermwyr ei adlewyrchu yn nyraniad y MEG ar gyfer portffolio'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

10. O’r cychwyn cyntaf, mae’r Cabinet wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd, yn ogystal â rhoi’r setliad gorau posibl i lywodraeth leol. Mae ein paratoadau wedi cael eu siapio gan ein ffocws ar **ddiogelu** iechyd a swyddi, **adeiladu** dyfodol gwyrddach ac ysgogi **newid** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal.

11. Mae’r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi’r Adolygiad o Wariant blwyddyn ar 25 Tachwedd wedi effeithio ar amseru’r gyllideb eleni. Gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y gyllideb ar gyfer eleni.

12. Mae hyn yn cynnwys mynd ati ar 31 Rhagfyr i gyhoeddi dogfennau’n ymwneud â’r gyllideb, gan gynnwys y cynlluniau gwariant strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, a chynigion yn ymwneud â threthiant a benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwariant manwl ar gyfer y portffolios. Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi’r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 ar 2 Mawrth 2021.

**Cyllideb Ddrafft 2021-22 – Refeniw Adnoddau**

13. Mae’r llinell sylfaen ar gyfer Refeniw a Ailddatganwyd yn cynnwys addasiadau ar gyfer cyllid pontio’r UE, ad-daliadau buddsoddi i arbed, ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol a’r ychwanegiad at linell sylfaen Cynllun y Taliad Sylfaenol (Cyllid i Ffermwyr) a ariannwyd o’r blaen gan yr UE.

**Tabl 2. Cysoni’r Llinell Sylfaen Agoriadol**

| | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m** |
|---|---|
| **Cyllideb Agoriadol ar gyfer Adnoddau Refeniw** | |
| Cyllideb Derfynol Gyhoeddedig 2020-21 | 195.095 |
| Ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol 2020-21 | 48.658 |
| Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi’i ychwanegu at y Llinell Sylfaen | 231.145 |
| Addasiad ar gyfer Cyllid Pontio Afreolaidd yr UE | (0.170) |
| Addasiad ar gyfer Ad-daliadau Buddsoddi i Arbed | 0.754 |
| | |
| **Llinell Sylfaen a Addaswyd yn unol â Phapur y Cabinet 14 Rhagfyr** | **475.482** |

14. Ar 14 Rhagfyr 2020, cyflwynodd y Cabinet ddyraniadau dangosol ar lefel MEG, ar sail ein ffocws ar **ddiogelu** iechyd a swyddi, **adeiladu** dyfodol gwyrddach ac ysgogi **newid** er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal. Dengys y dyraniadau dangosol fod yna gynnydd net o £33m (7%) yng nghyllidebau Adnoddau’r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Mae hyn

yn cynnwys gostyngiadau yn y MEG mewn perthynas â chyllid afreolaidd y flwyddyn flaenorol a throsglwyddiad MEG i MEG o £1.145m i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol yng nghyswllt y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

15. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y flaenoriaeth "Adeiladu Dyfodol Gwyrddach" yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Dyraniadau ychwanegol o £5m i Ynni Glân a Thlodi Tanwydd, £5m i Fioamrywiaeth, £13.2m tuag at Ffermio a Physgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE, a £6.6m ar gyfer yr Economi Gylchol.

**Tabl 3. Dyrannu Adnoddau Ychwanegol – Refeniw gan y Cabinet**

| | | Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m |
|---|---|---|
| **Llinell Sylfaen Agoriadol a Addaswyd** | | **475.482** |
| | | |
| Ymrwymiad Blaenorol – Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol | | 3.363 |
| Dyraniadau Penodol | | 16.624 |
| Ffermydd a Physgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE | | 13.235 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau** | | **33.222** |
| Trosglwyddo Cronfeydd i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol | | (1.145) |
| | | |
| **Cyllideb Ddrafft 2021-22: Cyllideb Refeniw (Gweler y Tabl BEL)** | | **507.559** |
| | **BEL** | |
| **Cymhwyso Dyraniadau Ychwanegol (33.222m)** | | |
| Ynni –Tlodi Tanwydd | 1270 | 1.058 |
| Ynni – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 2809 | 2.334 |
| Ynni – Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 3771 | 1.608 |
| Llifogydd – Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol | 2230 | 3.363 |
| Bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 2825 | 3.550 |
| Bioamrywiaeth – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored | 2490 | 1.450 |
| Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol | 2190 | 6.624 |
| Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE | 2830 | 2.100 |
| Swm atodol (Cynllun y Taliad Sylfaenol) Taliadau Amaethyddiaeth Colofn 1 yr UE | 2787 | 6.855 |
| Y Cynllun Datblygu Gwledig | 2949 | 4.280 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i'r BEL** | | **33.222** |

**Cyllideb Ddrafft 2021-22 – Cyfalaf**

16. Ar gyfer yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gwelir cynnydd net o £35m yn y gyllideb gyfalaf yn ystod 2021/22. O blith yr arian hwn, mae

swm o £15m wedi'i ddyrannu i Ynni Glân a Thlodi Tanwydd a swm o £20m i'r Economi Gylchol.

17. Mae buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith wedi bod yn bwysig wrth gwrdd â'r gostyngiadau carbon a oedd yn angenrheidiol. Bu'r effaith carbon sydd ynghlwm wrth gynigion buddsoddi yn ystyriaeth allweddol wrth ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd, ochr yn ochr â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac rwy'n falch o fod wedi gallu dyrannu buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar draws Ynni Glân a'r Economi Gylchol, sy'n cyfrannu'n helaeth at Ddatgarboneiddio ac effeithiau Newid Hinsawdd.

**Tabl 4: Dyrannu Cyfalaf Ychwanegol 2021-22**

| **Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb Gyfalaf** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m** |
|---|---|
| **Cyllideb Gyfalaf Agoriadol 2020-21** | **130.992** |
| | |
| Ailgydweddu cyfrifoldebau Gweinidogol o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol 2020-21 | 26.400 |
| Addasiad ar gyfer Cyllid Pontio afreolaidd yr UE | (0.500) |
| Cyllid Trafodiadau Ariannol Afreolaidd | (2.000) |
| | |
| Cyllid Ychwanegol – Tlodi Tanwydd (BEL 1270) | 4.000 |
| Cyllid Ychwanegol – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (BEL 2809) | 11.000 |
| Cyllid Ychwanegol – Yr Economi Gylchol (BEL 2190) | 20.000 |
| | |
| **Cyllideb Gyfalaf Ddrafft 2021-22** | **189.892** |

## Rhaglen Lywodraethu – Ffyniant i Bawb

18. Rwyf wedi ystyried y paratoadau cyllidebol drwy edrych ar y dystiolaeth o anghenion a'r pwysau ar ein meysydd blaenoriaeth yn ein Strategaeth Genedlaethol – Ffyniant i Bawb, yn cynnwys Datgarboneiddio. Caiff y dull gweithredu hwn ei adlewyrchu yn fy mhenderfyniad i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus a'n rhaglenni ataliol, a'u diogelu, ynghyd â chydbwyso anghenion y tymor byr a'r tymor hir.

19. Rydym yn defnyddio'r gyllideb hon er mwyn annog pob cymuned yng Nghymru i chwarae ei rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a wynebwn. Bydd angen mwy na gwariant y Llywodraeth yn unig i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Felly, nid ein mentrau mwyaf grymus o angenrheidrwydd a gaiff y buddsoddiad ariannol uchaf, ond y rhai sy'n rhoi cyfle i bobl yng Nghymru roi o'u hamser a'u hegni i weithredu'n uniongyrchol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

20. Y perygl mwyaf i'n cymunedau yn sgil newid hinsawdd yw stormydd, llifogydd ac erydu arfordirol cynyddol ddifrifol sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghymru. Yn y gyllideb hon, rydym yn amddiffyn cymunedau Cymru rhag effeithiau mwyaf difrifol ac uniongyrchol newid hinsawdd, fel rhan o fuddsoddiad cyfalaf gwerth £140 miliwn yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Hefyd, rydym yn helpu i godi £150 miliwn yn ychwaneg dros dair blynedd mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol Cymru i amddiffyn 18,000 a mwy o gartrefi fel rhan o'n Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

21. Y perygl mwyaf i gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru yn sgil newid hinsawdd yw'r effaith ar gostau ynni cartref. Yn y gyllideb hon, rydym yn ymrwymo £31 miliwn, gan gynnwys £8 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, i ariannu mesurau arbed ynni ar gyfer 25,000 o aelwydydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf anghenus, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda chyflyrau anadlol a chyflyrau cylchrediad y gwaed.

22. Yn 2021-22 rydym yn dyrannu £15m o gyllid cyfalaf a £5m o gyllid refeniw ychwanegol, ar ben y cyllidebau sydd i'w cael eisoes, er mwyn sicrhau y gallwn gynyddu manteision ein rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad yn y rhaglenni hyn i £40m yn 2021-22.

23. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynyddu ein huchelgais o ran newid hinsawdd yn unol â chyngor Sero Net y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein huchelgais mewn ffordd a fydd yn creu cyfleoedd i economi Cymru ac yn cefnogi ein cymunedau, gan eu gwneud yn iachach ac yn decach.

24. Gall coetiroedd a choed fod yn bwysig o ran cynnal bioamrywiaeth, mewn mannau trefol a gwledig fel ei gilydd. Wrth galon ein dull o ymdrin â'r dirywiad a mynd i'r afael â bioamrywiaeth mae ein rhaglen Coedwig Genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn anelu at wella cyflwr ein coetiroedd hynafol mwyaf gwerthfawr, ynghyd â gwella'r cysylltiad rhyngddynt, ac mae hefyd yn anelu at gyflymu'r gwaith o blannu coed. Nid yn unig rydym wedi llwyddo i gynnal y £4.5m o gyllid cyfalaf a roddasom eleni, rydym hefyd yn buddsoddi £5m yn ychwaneg o gyllid refeniw er mwyn cyflymu'r rhaglen honno.

25. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn creu mwy o goetiroedd cymysg, yn ymestyn coetiroedd presennol, yn rhoi dulliau rheoli gweithredol ar waith yn y coetiroedd er mwyn cynnal iechyd coed a mynd i'r afael â phlâu a chlefydau, ac yn chwilio am gyfleoedd i gysylltu coetiroedd gyda'i gilydd er mwyn gwella cadernid ecolegol.

**Datgarboneiddio, Cyllidebau Carbon a tharged statudol uwch ar gyfer lleihau allyriadau**

26. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein paratoadau cyllidebol ar ddatgarboneiddio ar draws y Llywodraeth.

27. Mae Cymru Carbon Isel yn nodi 100 o bolisïau a chynigion. Y camau hyn, a bennwyd gennym ar gyfer 2016-2020, a fydd yn cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf a'n targed interim ar gyfer 2020. Mae'r camau hyn, a seilir ar dystiolaeth y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, naill ai'n lleihau allyriadau'n uniongyrchol neu'n cyfrannu at bontio i economi carbon isel mewn modd teg, a dyma'r camau a fydd yn ein galluogi i gwrdd â'n targedau deddfwriaethol a'n rhoi ar y llwybr tuag at leihau allyriadau.

28. Ers i'n Cynllun gael ei gyhoeddi, rydym wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd ac wedi cyflymu ein huchelgais. Y llynedd, derbyniais argymhelliad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i gynyddu targed 2050 Cymru i 95%, a gofynnais am gyngor pellach ynglŷn â sut mae'r targed newydd ar gyfer 2050 yn effeithio ar y targedau interim a'r cyllidebau carbon a bennwyd yn 2018. Erbyn hyn rydym wedi cael cyngor pellach, ac mae cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn glir, ar sail tystiolaeth a dadansoddiad annibynnol, fod yna lwybr fforddiadwy, dichonadwy a chredadwy tuag at sero net i Gymru erbyn 2050.

29. Yn awr, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf, a fydd yn cwmpasu cyfnod yr ail gyllideb garbon. Rydym wedi dechrau llunio'r Cynllun a'r polisïau a'r cynigion i gwrdd â'n hail gyllideb garbon. Gwyddom eisoes y bydd yr uchelgais uwch yn golygu y bydd yn rhaid cynyddu graddfa a chyflymu cyfradd y polisïau y mae eu hangen i gwrdd â'n targed newydd. Bydd yn rhaid i'r camau hyn gael eu hariannu gan y cyllidebau ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod amser hwnnw a byddant yn cael eu pennu gan y camau y dewiswn eu cymryd. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r cyngor a gafwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

30. Mae gennym gyfle pwysig i gydweddu'r paratoadau ar gyfer ein cynllun nesaf i gwrdd â'r ail gyllideb garbon ar gyfer 2021-26 a'r cynllun a fydd yn olynu fersiwn gyfredol y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

31. Rhaid i ni fod yn glir ynglŷn â chysylltiadau rhwng y gyllideb ariannol a'r gyllideb garbon. Y dull gweithredu presennol yw bod y "gyllideb garbon" yn pennu'r trywydd ar gyfer lleihau allyriadau Carbon, ac y bydd y gyllideb ariannol yn tynnu sylw at achosion pan fydd gwariant mewn meysydd polisi yn helpu i gyflawni'r amcan (e.e. mesurau datgarboneiddio).

32. Bydd mwyafrif y penderfyniadau ynglŷn â gwariant yn dylanwadu ar ystod lawn o ganlyniadau, ac ar sail ein profiadau blaenorol fel Llywodraeth wrth geisio cyflawni amryfal fanteision sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw priodoli pob punt a wariwn i un canlyniad yn cynrychioli'r cysylltiad rhwng gwariant a chanlyniadau mewn modd cywir nac ystyrlon. Felly, rydym wedi mynd ati i bennu prosiectau sy'n ategu gostyngiadau mewn allyriadau, yn hytrach na chynrychioli holl wariant Llywodraeth Cymru ar liniaru newid hinsawdd.

**Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'w chyhoeddiad fod yna "argyfwng hinsawdd" a sut mae'r cyhoeddiad hwn wedi dylanwadu ar ddyrannu cyllidebau**

33. Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a chyflawni yn erbyn yr ymrwymiad y bydd y sector cyhoeddus yn sero net erbyn 2030, bydd cyllid yr economi gylchol hefyd yn parhau i gefnogi'r arfer o gyflwyno Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ar gyfer casglu gwastraff ac eitemau i'w hailgylchu. Yn ogystal â lleihau allyriadau carbon, bydd hyn yn helpu i wella ansawdd yr aer, yn lleihau sŵn, yn gwella effeithlonrwydd ac yn gostwng costau cynnal a chadw hirdymor, gan helpu hefyd i esgor ar werth ychwanegol yn sgil cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a chefnogi'r twf ehangach mewn swyddi gwyrdd.

34. Trwy hyn, bydd y dyraniad cyllid ychwanegol ar gyfer yr economi gylchol yn helpu cymunedau, canol trefi, ysgolion, prifysgolion, busnesau ac awdurdodau lleol i wneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i barhau â'n gwaith – nid yn unig o ran gwella ailgylchu, ond hefyd o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar dwf cyflym Caffis Atgyweirio er mwyn creu hybiau mewn canol trefi a chymunedau ledled Cymru lle gall pobl fynd â nwyddau i'w hatgyweirio neu gael gafael ar eitemau y gellir eu hailddefnyddio.

35. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adferiad gwyrdd a glas ar ôl Covid-19 ynghyd â chyfoethogi'r fioamrywiaeth sy'n sail i'n hiechyd, ein heconomi a'n llesiant. Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, y Goedwig Genedlaethol ac adfer mawndiroedd a safleoedd Natura 2000 – dyma rai o'r mentrau a roddwn ar waith i gyflawni hyn.

36. Fel Llywodraeth, rydym wedi cydnabod yr argyfwng natur mwyfwy difrifol a'r ffaith ein bod ni, ynghyd â gweddill y DU a'r byd, wedi methu â gwneud cynnydd digonol yn erbyn y targedau byd-eang, a'r canlyniad o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

37. Trwy gyfrwng ein mentrau polisi, rydym wedi cymryd camau i lwyr ymwreiddio ystyriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth, yn unol â'n Polisi Adnoddau Naturiol, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ein dyletswydd adran 6 mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ac, yn fwyaf arbennig, trwy gyfrwng ein proses gyllidebu.

38. Rwyf wedi cydnabod yr argyfwng natur mwyfwy difrifol a'r ffaith ein bod ni, ynghyd â gweddill y DU a'r byd, wedi methu â gwneud cynnydd digonol yn erbyn y targedau byd-eang, a'r canlyniad o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

39. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda fframwaith bioamrywiaeth y DU, rhanbarthau a llywodraethau is-genedlaethol a'r

Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i ddatblygu dangosyddion a thargedau uchelgeisiol ar gyfer y degawd nesaf.

40. Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran yr hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ddibynnol ar y naill a'r llall. Mae chweched gyllideb garbon y DU yn ddibynnol ar y ffaith y bydd Cymru yn chwarae ei rhan, ac ni allwn ni yng Nghymru gwrdd â'n targedau heb i Lywodraeth y DU weithredu. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd buddion a chostau'r broses o bontio i sero net yn cael eu rhannu'n deg gan bob rhan o'r DU.

41. Mae data'n ymwneud ag allyriadau'n awgrymu ein bod ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf a tharged 2020, ond bydd cyllidebau a thargedau'r dyfodol yn gofyn mwy fyth. Rhaid i bob un ohonom ddwysáu ein hymdrechion os ydym am weld Cymru yn cyfrannu mewn modd teg at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**Sut mae gosod bioamrywiaeth fel wythfed flaenoriaeth Ffyniant i Bawb wedi dylanwadu ar y broses pennu cyllidebau ar gyfer eleni a'r cyllidebau a fydd yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth**

42. Y llynedd, trwy gynnwys bioamrywiaeth fel un o'r wyth blaenoriaeth drawsbynciol am y tro cyntaf, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a chydnabod yr angen brys i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Eleni, wrth ddyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol, gofynnwyd am roi blaenoriaeth i fuddsoddiadau cyfalaf mewn newid hinsawdd a bioamrywiaeth ochr yn ochr â'n buddsoddiadau allweddol mewn tai, canol trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal ag ystyriaeth orfodol trwy asesiadau effaith.

43. Ariannwyd Tasglu Bioamrywiaeth trwy gyfrwng cyllideb 2020-21 er mwyn prif ffrydio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth – mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer 2021-22 i barhau â'r gwaith hwn.

44. Mae'r pecyn cyllid £33m a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth, natur a'r Goedwig Genedlaethol yn ein galluogi i adeiladu ar y prosiectau a'r rhaglenni sydd gennym ar waith i'n helpu i gwrdd â'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ymdrin â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd, gan sicrhau yr un pryd y bydd ein hadferiad ar ôl Covid-19 yn adferiad gwirioneddol wyrdd.

45. Gan weithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd y **Gronfa Adferiad Gwyrdd** yn esgor ar welliannau i natur, sef gwelliannau y bydd modd i gymunedau lleol elwa'n uniongyrchol arnynt gyda gwell mynediad. Mae hyn yn ategu ein **Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** – bydd y rhaglen hon yn cael ei hymestyn, a bydd yn creu 'natur ar garreg eich drws' mewn mwy o gymunedau ledled Cymru.

46. Byddwn yn parhau i gymryd camau i gynorthwyo’r gwaith o adfer safleoedd **Natura 2000** a safleoedd gwarchodedig eraill. Mae’r safleoedd hyn yn cynnig hafan i’n rhywogaethau a’n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr a’r rhai sy’n wynebu’r bygythiad mwyaf. Mae gwella cyflwr y safleoedd hyn yn hollbwysig o ran creu rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled Cymru, gan ddarparu manteision i bobl a busnesau yr un pryd.

47. Bydd parhau i fuddsoddi yn y gwaith o adfer ein **Mawndiroedd** trwy’r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn esgor ar fanteision i fioamrywiaeth, a hefyd bydd yn helpu i fynd i’r afael ag effeithiau newid hinsawdd trwy ddal mwy o garbon ac atal llifogydd.

48. Bydd parhau i ddatblygu’r **Goedwig Genedlaethol** yn arwain at gyfleoedd ychwanegol i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy gael coetiroedd â gwell cysylltiad rhyngddynt a rhai a reolir yn well.

**Gwariant ataliol**

49. Bu’r effaith carbon sydd ynghlwm wrth gynigion buddsoddi yn ystyriaeth allweddol wrth ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd, ochr yn ochr â’r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith a mesurau ataliol yn hollbwysig o ran cwrdd â’r gostyngiadau carbon sy’n angenrheidiol.

50. Rhaid i ni ddeall effaith ein polisïau er mwyn cyfyngu ar ganlyniadau anfwriadol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ein sylfaen dystiolaeth ehangach, fel offeryn modelu allyriadau. Fe fydd hyn yn caniatáu i ni ddatblygu polisïau a chynigion yn y dyfodol mewn modd a fydd yn gwneud y gorau o’r nodau ac yn cyfyngu ar ganlyniadau anfwriadol.

51. Ymhellach, yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu grŵp cynghori ar gyfiawnder hinsoddol er mwyn sicrhau y bydd ein cyfnod pontio’n osgoi canlyniadau anfwriadol. Yn awr, mae swyddogion yn gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i archwilio’r dystiolaeth y mae ei hangen er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio yn cyfuno datgarboneiddio ag ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol ac economaidd.

52. Mae’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn pennu’r amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Dengys gwaith ymchwil diweddar fod buddsoddiad o £100m yn lleihau’r perygl i 7,000 o gartrefi a busnesau, yn diogelu mwy na 14,000 o swyddi ac yn creu mwy na 1,000 o swyddi. Ymhellach, mae gwario arian ar waith cynnal a chadw yn lleihau’r perygl y bydd yr asedau’n methu.

53. Dengys ein buddsoddiad parhaus yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sut mae ein syniadau arloesol yn gwneud i gyllidebau fynd ymhellach ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym yn buddsoddi mewn ffyrdd sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau, ond sydd hefyd yn arwain at arbedion ariannol gan fod cyrff cyhoeddus yn gwario llai ar eu biliau ynni.

Mae'n canolbwyntio ar brosiectau seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau, ac ynni yn sgil prosiectau gwastraff.

54. Trwy fuddsoddi yn y gwaith o ymdrin â thlodi tanwydd, rydym yn cyfrannu at fynd i'r afael ag ystod o effeithiau negyddol, yn cynnwys cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â thywydd oer, marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol plant, ac absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch. Dengys canfyddiadau gwaith ymchwil fod cynllun Nyth Cartrefi Clyd yn cael effaith gadarnhaol bendant ar iechyd y rhai sy'n rhan o'r cynllun, a bod y rhai sy'n elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni trwy gyfrwng y cynllun yn defnyddio llai ar y GIG.

55. Mae ein buddsoddiadau mewn rhaglenni dileu clefydau anifeiliaid yn ataliol eu natur. Er enghraifft, nod y Rhaglen Dileu TB yn y pen draw yw llwyddo i gael gwared â TB gwartheg – rhywbeth a fydd yn arwain at wario llai ar fesurau dileu ac iawndal, yn ogystal â llai o golledion dilynol i'r diwydiant, gan roi hwb felly i economi Cymru.

**Llunio Polisïau sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth**

56. Mae amgylchedd Cymru yn sail i'r sectorau amaethyddiaeth, pysgodfeydd, twristiaeth a choedwigaeth, ac mae'n bwysig hefyd i feysydd polisi eraill, yn cynnwys iechyd a llesiant, ynni a seilwaith. Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n meithrin cadernid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac er mwyn gwerthuso'r modd mae'r rhaglen yn gweithredu, rydym yn buddsoddi'n flynyddol yn y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP).

57. Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn darparu rhaglen monitro a modelu amgylcheddol; mae'n casglu ac yn cymathu data, yn dadansoddi ac yn modelu, ac yn rhoi tystiolaeth benodol i dimau polisi, i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac i randdeiliaid.

58. Er enghraifft, rwy'n bwrw ymlaen ag ymrwymiad y maniffesto i greu Coedwig Genedlaethol, a hynny ar ffurf rhaglen goedwigaeth a fyddai'n esgor ar amrywiaeth o fanteision. Bydd y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn cynorthwyo i sefydlu Coedwig Genedlaethol trwy ddarparu ystod o dystiolaeth dros bedwar cyfnod allweddol. Bydd y pecyn tystiolaeth yn cynorthwyo Polisi Coedwigaeth i ddatblygu elfennau allweddol y Goedwig Genedlaethol ynghyd â chyflwyno tystiolaeth yn eu cylch, a bydd yn gwneud hynny'n benodol trwy gefnogi achos busnes a fydd yn nodi amcanion a chanlyniadau'r Goedwig Genedlaethol.

59. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw gwerthuso'r Rhaglen bresennol er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Cytunwyd yn ffurfiol ar gynllun gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol gyda'r Comisiwn

Ewropeaidd fel rhan o broses gymeradwyo'r Rhaglen. Mae'r cynllun gwerthuso, a chyflawni yn erbyn hyn, yn elfen orfodol o'r Rhaglen.

60. Enghraifft arall yw'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, lle nodir yr amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Ceir lefel dda o dystiolaeth ar sail mapiau perygl llifogydd presennol (ar gyfer perygl llifogydd o du afonydd, yr arfordir a dŵr wyneb), Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, strategaethau lleol, yr Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol a'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl.

61. Ymhellach, byddwn yn gweithio gyda CNC, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i lunio cynigion ar gyfer rhaglen monitro bioamrywiaeth forol integredig y DU, sy'n cynnwys monitro mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar y cyd ag arbenigwyr gwyddoniaeth a pholisi trwy gyfrwng Grŵp Asesu ac Adrodd Morol y DU a'r Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach a Biolegol Amrywiol. Bydd y rhaglen fonitro hon yn cyflwyno'r dystiolaeth y mae ei hangen i asesu ac adrodd yn hyderus ar iechyd a statws ein bioamrywiaeth forol a'n cynnydd tuag at fodloni statws amgylcheddol da, yn unol â'n hymrwymiadau yn Strategaeth Forol y DU.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u>**

62. Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb drafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd y tueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau'r dyfodol a'u heffeithiau posib yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

63. Er enghraifft, mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyfrannu'n helaeth ar draws llawer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru dan ein Strategaeth Genedlaethol “ffyniant i bawb”, gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da. Cyflawnir hyn trwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r holl effeithiau negyddol cysylltiedig a gaiff ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

64. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu ein hamgylchedd morol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Un ffordd hollbwysig o gyrraedd yr amcan hwn yw ein rhwydwaith o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cwmpasu 69% o ddyfroedd mewndirol Cymru a 50% o holl ddyfroedd môr mawr Cymru.

65. Bwriad y Cynllun Twf Amgylcheddol yw bod yn naratif cyffredin ar gyfer yr hyn rydym yn ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i greu Cymru wyrddach, gan bennu dull strategol, mwy cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r saith nod llesiant dan yr egwyddor

datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith clir ar gyfer creu'r Cynllun, gyda'r pum ffordd o weithio yn sail i'r ffordd y gweithiwn.

66. Er enghraifft, bydd y Cynllun Twf Amgylcheddol yn gynllun hirdymor ac ataliol a chanddo'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur. Ei nod yw bod yn integredig ac yn gydweithredol ar draws Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, a chynnwys y sector preifat a'r trydydd sector. Y bwriad hefyd yw sicrhau manteision ehangach, megis defnyddio'r amgylchedd naturiol i hybu iechyd a llesiant y meddwl a'r corff a chwalu rhwystrau at iechyd e.e. llygredd aer.

67. Bydd yr ymrwymiad ym maniffesto'r Prif Weinidog ar gyfer coedwig genedlaethol newydd yn helpu i gefnogi nodau Coetiroedd i Gymru, yn ogystal â blaenoriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth, coedwigaeth fasnachol, adeiladu, cydlyniant cymunedol ac adfywio cymunedol, ac iechyd a llesiant.

**Effeithiau ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant**

68. Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, bu nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effeithiau Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effeithiau integredig wedi'u prif ffrydio'n rhan o'r broses llunio polisïau, yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.

69. Rwy'n falch o ddweud nad ydym wedi cyflwyno unrhyw ostyngiadau cyllidebol yn y gyllideb ddrafft hon, felly cynhaliwyd unrhyw asesiadau effeithiau ar nifer o fentrau polisi a chyllidebol newydd.

70. Dengys canlyniadau'r asesiadau effeithiau nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd o ganlyniad i'r penderfyniadau cyllidebol hyn.

**Y Gymraeg**

71. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud y tri pheth canlynol:

    1. Ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (rhai cadarnhaol a negyddol)

    2. Ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg

    3. Gofyn am sylwadau ynglŷn â'r effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori, a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith

72. Fel rhan o’r broses Asesu Effeithiau Integredig, rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg ac wedi nodi nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

**Hawliau Plant**

73. Cymru yw’r wlad gyntaf yn y DU, ac un o’r ychydig wledydd trwy’r byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn mewn cyfraith ddomestig trwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

74. Caiff dyletswyddau’r Mesur eu gweithredu mewn dau gam ac maent yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru:

- i roi ystyriaeth gytbwys i’r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a’i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisïau a deddfwriaethau;
- i roi ystyriaeth gytbwys i’r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn pan fyddant yn arfer eu holl bwerau neu eu holl ddyletswyddau cyfreithiol.

75. Ar draws fy mhortffolio, mae’n ofynnol i bob aelod o staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae’r broses hon wedi llywio’r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wrth bennu’r gyllideb hon.

**Ail-greu ar ôl Covid 19**

76. Mae *Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a’r Blaenoriaethau* gan Lywodraeth Cymru yn rhoi’r economi gylchol wrth galon ein dull o ail-greu, gyda gweithredu ar yr economi gylchol yn rhan allweddol o adferiad gwyrdd. Bydd y cyllid ychwanegol a ddyrennir i economi gylchol yn parhau gyda’r gwaith, ac mae eisoes yn cefnogi gweithredu ledled Cymru trwy gyfrwng Cronfa’r Economi Gylchol. Byddwn yn parhau gyda’r gwaith o wella ailgylchu, ond hefyd byddwn yn mynd i’r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar dwf cyflym Caffis Atgyweirio er mwyn creu hybiau mewn canol trefi a chymunedau ledled Cymru lle gall pobl fynd â nwyddau i’w hatgyweirio neu gael gafael ar eitemau y gellir eu hailddefnyddio.

77. Ymhellach, byddwn yn parhau gyda’r cymorth a rydd Cronfa’r Economi Gylchol i gyrff a ariennir yn gyhoeddus, er mwyn eu galluogi i weithredu. Eisoes, mae hyn wedi esgor ar 112 o brosiectau ledled Cymru gan ysgolion, prifysgolion, ysbytai, cynghorau cymuned a thref, a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus – yn amrywio o wella ailgylchu yn y gymuned i arloesi blaengar yn ein Prifysgolion.

78. Er enghraifft, y canolfannau rhannu bwyd cymunedol yng Ngwynedd, Sied Rhannu ac Atgyweirio Ffonau Symudol Cyngor Tref Llangollen, darparu peiriannau llaeth a biceri ledled Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â’r

Ganolfan Ailddylunio, Atgyweirio, Ailweithgynhyrchu ac Ailddefnyddio ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Labordy Ymchwil Dadansoddi Cylch Bywyd yr Economi Gylchol ym Mhrifysgol Abertawe.

79. Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi gwell cadernid economaidd trwy fyrhau cadwyni cyflenwi – er enghraifft, trwy fanteisio ar ein busnesau ailgylchu a'n busnesau cynorthwyol o safon fyd-eang i ddefnyddio'r deunyddiau a ailgylchir. Yn ei dro, bydd hyn yn ysgogi gweithgarwch economaidd a chyfleoedd sgiliau mewn effeithlonrwydd adnoddau, a dengys gwaith ymchwil y gallai symud tuag at economi fwy cylchol greu hyd at 30,000 o swyddi newydd yng Nghymru ac arwain at arbed £2 biliwn mewn costau deunyddiau'n unig.

80. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at wendidau allweddol mewn cadwyni cyflenwi, a gall canolbwyntio ar economi gylchol helpu i fyrhau'r cadwyni cyflenwi hynny, gan wella ein cadernid economaidd ac amgylcheddol. Gan adeiladu ar y camau rydym eisoes wedi'u cymryd i gynorthwyo busnesau a chyrff cyhoeddus i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, rydym yn ymrwymo cyllid refeniw o £6.6m a chyllid cyfalaf o £20m, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn 2021-22 i fwy nag £82m.

**Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

81. Fel y gwelwyd yn Adolygiad y DU o Wariant, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyflawni ei hymrwymiad i ddisodli cyllid yr UE yn llwyr. Ni chawsom unrhyw gyllid yn y setliad mewn perthynas â disodli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE. Bydd rhaglen beilot ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n werth £220 miliwn yn 2021-22, yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill, gan arwain y ffordd ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyr yn 2022-23.

82. O ran cymorth i ffermwyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai Cymru yn cael £242m o Gyllid i Ffermwyr i ddisodli cyllid y UE – mae'r swm hwn £137m yn llai na'r swm roeddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer 2021-22. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ofyn a oes modd diwygio lefel y cyllid y cytunwyd arno ar gyfer 2020-21 fel y gellir cynnwys £42m yn ychwaneg mewn perthynas â'r trosglwyddiad Colofn y cytunwyd arno ar ddechrau'r flwyddyn. Byddai hyn yn ein galluogi i ariannu rhyw fath o Gynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y flwyddyn ariannol hon – sef rhywbeth a fyddai'n gwrthbwyso rhywfaint o'r diffyg.

83. Yn ei maniffesto ar gyfer etholiad cyffredinol 2019, ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid i ffermwyr i ddisodli cyllid yr UE ar ôl i ni ymadael â'r UE. Câi Cymru oddeutu £337m y flwyddyn trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

84. Mae'r cyllid mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig yn llai o lawer na'r disgwyl. Nid yw'n darparu cyllid a all ddisodli'n llwyr y cyllid a geid gan yr

UE, a chaiff hyn effaith anghymesur ar Gymru. Mae Llywodraeth y DU wedi honni ei bod wedi ymrwymo i wneud pethau'n fwy cyfartal, ond yn hytrach fe fydd hyn yn arwain at swm sydd £137m yn llai na'r disgwyl ar gyfer ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru.

85. Pleser yw dweud bod fy swyddogion a minnau wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn unol yn ein rhwystredigaeth a'n gwrthwynebiad i'r dull a roddir ar waith gan Lywodraeth y DU.

86. O ran pysgodfeydd, bydd y cyllid o £2.1m rydym wedi'i gael yn helpu'r sector morol a physgodfeydd i ryw raddau, sef sector sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE. Caiff y cyllid rydym wedi'i gael ar gyfer pysgodfeydd a chymorth i ffermwyr ei adlewyrchu yn nyraniadau refeniw'r MEG.

<u>Rhaglen Rheoli Tir Newydd</u>

87. Bydd y Rhaglen Diwygio Rheoli Tir yn darparu system cymorth amaethyddol a gaiff ei theilwra ar gyfer Cymru. Bydd yn cynorthwyo ffermwyr Cymru i ffynnu, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chyfrannu at yr argyfwng hinsawdd. Mae'r *Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth yng Nghymru* (a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr) yn nodi cyfres o gynigion a fydd yn arwain y ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a gyflwynir yn ystod tymor nesaf y Senedd.

88. Bydd y Bil hwn yn strategol ei gwmpas. Bydd yn pennu fframwaith cymorth a all helpu i ddatblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru ar gyfer y pymtheg i'r ugain mlynedd nesaf. Bydd y Bil yn galluogi ffermwyr i gael cymorth ariannol, gan sicrhau y gellir rhoi system reoleiddio gydlynol a theg ar waith o fewn y sector amaethyddol.

89. Cynigiwn gyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol – sef cynllun a fydd yn rhoi gwerth gwirioneddol ar y canlyniadau amgylcheddol a ddarperir gan ffermwyr (priddoedd gwell, aer glân, dŵr glân, gwell bioamrywiaeth, camau i leihau cynhesu byd-eang), ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i greu sector amaethyddol cynaliadwy a chadarn yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

90. Bydd y cynllun arfaethedig (y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol. Lefel y taliad fydd y newid sylfaenol, a bydd yn gysylltiedig â'r camau y bydd y ffermwr yn eu cymryd. Ymhellach, bwriadwn greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth, gan roi'r holl reoliadau amaethyddol mewn un darn o ddeddfwriaeth. I ategu hyn byddwn yn creu cyfundrefn orfodi newydd, gan ddefnyddio ystod o sancsiynau sifil a fydd yn gymesur â phob achos unigol, a chan barhau i ddefnyddio sancsiynau troseddol ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol a throseddau a ailadroddir.

91. Bydd ystod o waith dadansoddi a gwaith ymgysylltu yn cael ei gynnal yn 2021 i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn, fel y gellir sicrhau bod y cynllun ffermio cynaliadwy arfaethedig yn addas i'r diben, ynghyd â deall yr effaith ar y sector amaethyddol.

92. Mae gan y Rhaglen Diwygio Rheoli Tir gyllideb o 400k y flwyddyn i fynd i'r afael â'r gwaith dadansoddi a'r gwaith ymgysylltu.

Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd

93. Ym mis Medi 2020 cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â chanlyniad yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. A ninnau'n gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae llunio Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn yn adeiladu ar y farn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd, a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i ddarparu Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllideb benodol i'w chael ar gyfer datblygu Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd; y gyllideb ar gyfer y Môr a Physgodfeydd a fydd yn talu unrhyw gostau.

94. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Pysgodfeydd y DU ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n bosibl i sefydlu fframwaith clir a chadarn ar lefel y DU ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd, ac mae'n rhoi'r pwerau a'r dulliau rheoli angenrheidiol i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer ein pysgodfeydd penodol yng Nghymru, ar ôl i ni ymadael â'r UE.

Corff Llywodraethu Amgylcheddol Newydd

95. Bwriad y mesurau dros dro yw 'llenwi'r bwlch' rhwng diwedd y cyfnod pontio a'r adeg y cyflwynir mesurau statudol.

96. Mesurau dros dro yn unig yw'r rhain – ffordd o arwain tuag at gorff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Mater i'r Senedd nesaf fydd rhaglen ddeddfwriaethol y dyfodol, ond rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i roi corff parhaol ar waith cyn gynted ag y bo modd.

97. Ein hegwyddor arweiniol ar gyfer y mesurau dros dro yw sicrhau na fydd penderfyniadau a wneir dros dro yn cyfyngu ar ein proses benderfynu ar gyfer y mesurau parhaol.

98. A ninnau â chyfres o egwyddorion amgylcheddol sydd wedi ennill eu plwyf ynghyd â set wahanol o gyrff, mae Cymru eisoes mewn cyd-destun lle mae yna fframwaith deddfwriaethol ar waith y gellir adeiladu arno. Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, rhaid i ni sicrhau ein bod yn ategu ein deddfwriaethau, ein prosesau a'n sefydliadau presennol, a gydnabyddir yn rhyngwladol.

99. Ar 19 Tachwedd, cyhoeddais fy ymateb i adroddiad y grŵp gorchwyl llywodraethu amgylcheddol. Rwyf wedi derbyn argymhelliad y Grŵp

Gorchwyl ynglŷn â chael corff goruchwylio ar gyfer Cymru, ac yn hyn o beth disgwyliaf y byddwn yn cyflawni'n llwyr yn erbyn y swyddogaethau a gâi eu darparu'n flaenorol gan Gomisiwn yr UE.

**Deddfwriaeth**

100. Mae'r swyddogion wedi edrych yn ofalus ar bob deddfwriaeth Categori 1 ac mae nifer o ymarferion blaenoriaethu wedi'u rhoi ar waith i leihau'r baich deddfwriaethol cyffredinol cyn diwedd y Senedd bresennol.

101. Mae llawer iawn o ddeddfwriaethau hanfodol yr UE yn angenrheidiol ar draws fy mhortffolio i roi gofynion ar waith – er mwyn sicrhau y bydd gennym lyfr statud llwyr weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Os na allwn sicrhau y bydd y deddfwriaethau angenrheidiol mewn lle, ni fydd modd i ni gyflawni swyddogaethau craidd y llywodraeth.

Is-ddeddfwriaethau

102. Ar hyn o bryd, mae yna 24 o is-ddeddfwriaethau'n ymwneud â'r UE y bernir eu bod yn hanfodol erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Fodd bynnag, mae yna elfen o ddynamiaeth yn perthyn i'r niferoedd, oherwydd efallai y bydd niferoedd Offerynnau Statudol Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE yn newid. Byddai methu â gweithredu deddfwriaethau o'r fath yn arwain at rwyg gyfreithiol, h.y. dim trosi, gweithredu na chydymffurfio â chyfraith yr UE a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU fel rheol gyffredinol yn ystod y Cyfnod Gweithredu.

103. Er bod 14 o Offerynnau Statudol eraill wedi'u pennu fel blaenoriaethau uchel ar gyfer gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi cael eu gohirio tan ddechrau 2021. O blith y ffigur hwn, gellir gohirio 10 heb greu problemau cyfreithiol neu broblemau masnach.

104. Mae gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti yn ymrwymiad Gweinidogol allweddol. Mae gan y Rheoliadau hyn gefnogaeth drawsbleidiol, ac rwyf wedi ymrwymo i ddeddfu erbyn Gwanwyn 2021.

105. Rheoliadau Arddangosfeydd Anifeiliaid – Mae'r rhain wedi'u gohirio. Byddant yn cael eu hailasesu yn gynnar yn 2021.

Bil Amaethyddiaeth y DU

106. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 11 Tachwedd 2020.

107. Rydym yn cymryd pwerau am amser cyfyngedig ar gyfer Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth y DU er mwyn ein galluogi i barhau i gynorthwyo ffermwyr gyda chynllun y taliad uniongyrchol a sicrhau bod modd i sectorau amaethyddol ledled y DU allu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE. Daw pwerau Gweinidogion Cymru i ben

ar 31 Rhagfyr 2024 a byddant yn cael eu disodli gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a fydd yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd.

108. Pwerau dros dro fydd y pwerau a gaiff Gweinidogion Cymru, hyd nes y cyflwynir Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i greu system 'Gwnaed yng Nghymru' a fydd yn gweithio er budd amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a'n cymunedau. Caiff darpariaethau'n ymwneud â Chymru eu cynnwys mewn Atodlen ar wahân.

109. Erbyn hyn rwyf wedi cyhoeddi Papur Gwyn sy'n nodi cynlluniau ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd y Papur Gwyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gyflwynir yn nhymor nesaf y Senedd.

110. Cynigiaf y bydd y Bil hwn yn strategol ei gwmpas. Bydd yn pennu fframwaith cymorth a all helpu i ddatblygu amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru ar gyfer y pymtheg i'r ugain mlynedd nesaf. Bydd y Bil yn galluogi ffermwyr i gael cymorth ariannol, gan sicrhau y gellir rhoi system reoleiddio gydlynol a theg ar waith o fewn y sector amaethyddol.

<u>Bil Amgylchedd y DU</u>

111. Gohiriwyd y gwaith o graffu ar Fil Amgylchedd y DU ar 19 Mawrth ac ailddechreuwyd ar y gwaith ar 3 Tachwedd yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Daeth y gwaith ar y Bil i ben yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 26 Tachwedd. Yn awr, rhagwelwn y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2021.

112. Rwyf wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Bydd y drafodaeth ynglŷn â'r Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei chynnal pan fydd y gwaith o graffu ar y Bil yn tynnu tua'r terfyn.

113. Mae Bil Amgylchedd y DU yn cynnwys pwerau allweddol i Gymru ar gyfer cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a rhoi cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith. Mae'r pwerau'n ymwneud â chodi tâl am ddefnyddio eitemau plastig untro, sicrhau bod cynhyrchion yn cwrdd â safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni, a gosod labeli cliriach ar gynhyrchion yn nodi effaith amgylcheddol y cynhyrchion, er budd defnyddwyr yng Nghymru.

<u>Bil Pysgodfeydd y DU</u>

114. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn yn ystod y camau terfynol. Mae'r Bil wedi pasio trwy'r ddau dŷ sy'n rhan o Senedd y DU. Yn awr, bydd y Bil yn mynd yn ôl i Dŷ'r Arglwyddi i'w ystyried am y tro olaf, a disgwylir y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y flwyddyn.

115. Bu’r Senedd yn trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 6 Hydref. Cytunwyd y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau’r Bil Pysgodfeydd, i’r graddau maent yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

116. Mae’r Bil yn rhoi’r pwerau a’r dulliau rheoli angenrheidiol i’r Senedd ac i Lywodraeth Cymru fel y gellir cyflawni er budd ein pysgodfeydd penodol yng Nghymru, ar ôl i ni ymadael â’r UE. Yn hollbwysig, mae’r Bil yn dal gafael ar y ddarpariaeth i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â materion yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, i ranbarth môr mawr Cymru.

117. Bwriad Llywodraeth Cymru o hyd, fel mesur dros dro, yw cymryd pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil Pysgodfeydd y DU, hyd nes y gellir cyflwyno parth Cymru a Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru.

118. Byddwn yn parhau i weithio gyda Defra a’r Gweinyddiaethau Datganoledig i roi fframwaith ar gyfer y DU ar waith, lle cydnabyddir natur ddatganoledig y gwaith o reoli pysgodfeydd.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

**Tabl 5. Cymharu cyllidebau CNC**

| **Cyllideb CNC** | **Cyllideb derfynol 2020-21 £m** | | **Cyllideb ddrafft 2021-22 £m** | **Newid yn y gyllideb £m** |
|---|---|---|---|---|
| GIA Refeniw* | 59.033 | | 59.717 | 0.684 |
| GIA Cyfalaf | 1.216 | | 0.966 | (0.250) |
| Cyfalaf Llifogydd** | 12.700 | | 12.700 | 0.000 |
| Refeniw Llifogydd** | 19.750 | | 19.750 | 0.000 |
| **Cyfanswm** | **92.699** | | **93.133** | **0.434** |

* Cymorth Grant (GIA) CNC BEL 2451 (Nid yw’n cynnwys cyllidebau nad ydynt yn arian parod)
** Cyllid llifogydd i’w gytuno ac mae’n rhan o BEL 2230, felly llinell wastad at ddibenion enghreifftiol

119. Mae cyllideb CNC ar gyfer 2021/22 yn cynnwys mân newidiadau o gymharu â’r gyllideb ar gyfer 2020-21. Mae’r cynnydd yn y cyllid refeniw yn deillio o newidiadau yng nghyllid pontio afreolaidd yr UE ac ailddatgan gostyngiadau blaenorol ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed ar ôl ad-daliadau. Mae’r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf yn deillio o gwblhau £0.250m tuag at gostau pontio’r UE ar gyfer 2020-21 yn unig. Ni fu unrhyw newid yn y Cymorth Grant craidd ar gyfer CNC yn 2021-22.

120. Yn y gyllideb hon, rydym yn cynnal cyllid Cymorth Grant Llywodraeth Cymru sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru, sef £60 miliwn (oddeutu £93 miliwn yn cynnwys cyllid rheoli llifogydd a dŵr y disgwylir cadarnhad yn ei gylch). Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i roi hwb i’w ymdrechion i fynd i’r afael â newid hinsawdd a’i effaith yng Nghymru. Gwneir hyn trwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ar dir y sector cyhoeddus a rheoli llifogydd yn fwy naturiol.

121. Un o heriau mwyaf Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n hanfodol bod CNC yn parhau i ymateb i'n hargyfwng hinsawdd a'r uchelgais gynyddol o sicrhau o leiaf 95% yn llai o allyriadau. Gyda CNC ar flaen y gad, nod y dasg o weithredu ar draws sawl sector yw ceisio sicrhau y bydd amgylchedd Cymru yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well.

122. Yn ogystal â Chymorth Grant, caiff CNC incwm masnachol. Ymhellach, caiff CNC nifer o grantiau bach gan wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, o un flwyddyn i'r llall, ar gyfer prosiectau sydd y tu hwnt i gwmpas y Cymorth Grant.

123. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a chaiff hyn ei sbarduno i raddau helaeth gan CNC. Bydd yn ofynnol i CNC gyflawni rhaglen waith ar adfer mawndiroedd a rhai o'n safleoedd Natura 2000. Law yn llaw â hyn, bydd CNC yn arwain y gwaith o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn erbyn plâu neu glefydau iechyd planhigion ac achosion o Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS). Ni cheir cadarnhad eto ynglŷn â dyraniadau cyfalaf pendant ar gyfer CNC i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

124. Mae CNC yn parhau i chwarae rhan werthfawr iawn yn y gwaith o reoli ac ehangu Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae CNC wedi cyflwyno cynlluniau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys ehangu'r gorchudd coetir ledled Cymru. Bydd hyn yn arwain at ddal a storio carbon, yn ogystal â newid y mathau o goed rydym yn eu plannu mewn ymateb i fygythiadau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Mae CNC yn parhau i weithio â'm swyddogion i greu'r Goedwig Genedlaethol.

**Dull Llywodraeth Cymru o weithredu ei Chynllun Strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru**

125. Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn canolbwyntio ar weledigaeth i greu sector bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru a chanddo enw da drwy'r byd am ragoriaeth ac un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf amgylcheddol gyfrifol a chymdeithasol gyfrifol drwy'r Byd. Cyflawnir y weledigaeth hon trwy gyfrwng cenhadaeth â thair rhan yn perthyn iddi. Bydd y genhadaeth hon yn pennu sut byddwn yn gweithio gyda busnesau, sut byddwn yn esgor ar fuddion i drigolion Cymru a sut byddwn yn hyrwyddo bwydydd a diodydd Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

126. Hefyd, rydym wedi trafod sefyllfa Cymru ar ôl ymadael â'r UE o fewn Cynllun Dynodiad Daearyddol newydd ar gyfer y DU. Y bwriad yw y bydd y Cynllun Dynodiad Daearyddol newydd hwn yn parhau i ddiogelu cynhyrchion y DU a gofrestrir gyda'r cynlluniau Dynodiad Daearyddol sydd eisoes yn bodoli gyda'r UE. Yng Nghymru, mae hyn yn bwysig er mwyn parhau â'r dulliau diogelu a'r cysylltiadau gyda'n treftadaeth bwyd, ein cymunedau a'n diwylliant Cymreig.

127. Mae hyn yn gysylltiedig hefyd ag Ymgyrch Gwerthoedd Brand Cynaliadwy ac mae wedi'i wreiddio yn themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r neges gynaliadwy hon yn pennu siwrnai bwyd a diod Cymru, a'r bwriad yw ei lansio yn y DU, yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, Japan a Dubai yn ystod 2021. Ymhellach, bydd y sefyllfa newydd ar ôl ymadael â'r UE yn cael ei hategu gan Atodiad 'World and Food' y National Geographic – y tro cyntaf i hyn ddigwydd yn hanes unrhyw un o wledydd y DU.

128. Eleni, arweiniodd ein His-adran Fwyd y cynllun bocs bwyd hanfodol ar gyfer pobl a oedd yn hunanwarchod yng Nghymru, a hefyd aeth ati i sefydlu tasglu Covid-19 i adrodd i'r Gweinidog. Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi llunio Cynllun Tasglu Adfer ar ôl Covid i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac mae wedi chwarae rhan hollbwysig wrth lunio canllawiau ar weithgynhyrchu trwy'r diwydiant.

129. Oherwydd y pandemig Covid-19, cyhoeddais y byddai'r digwyddiad ar gyfer y diwydiant bwyd a diod (Blas Cymru/Taste Wales) yn cael ei ohirio. Bydd yn cael ei gynnal yn awr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 25 Hydref 2021, a hynny yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru. Gan ddibynnu ar effeithiau Covid-19 a'r sefyllfa iechyd yng Nghymru, y bwriad yw y bydd y digwyddiad hwn yn parhau i gael ei gynnal ar ffurf ffisegol a rhithwir er mwyn cefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru wrth iddo ymdopi â sioc ddeublyg – sef Covid ac ymadael â'r UE. Mae'r rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol wedi mynd ati i gefnogi'r digwyddiad masnach pwysig hwn. Dengys y digwyddiad ein penderfynoldeb clir i barhau i hyrwyddo'r gorau y gall diwydiant bwyd a diod Cymru ei gynnig ar lefel ryngwladol, ynghyd â datblygu mwy ar enw da Cymru drwy'r byd fel Cenedl Fwyd.

## Meysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor

### Ansawdd aer, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Gronfa Ansawdd Aer a gweithredu'r Cynllun Aer Glân

130. Mae gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, er budd iechyd, yr economi, yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae ein Cynllun Aer Glân yn nodi llwybr 10 mlynedd tuag at sicrhau aer glanach.

131. Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb yn cefnogi rhai ffrydiau gwaith pwysig, yn cynnwys nifer o ymrwymiadau yn y Cynllun Aer Glân: Awyr Iach, Cymru Iach. Mae hyn yn cynnwys gwireddu ein hymrwymiadau dan Ffyniant i Bawb: ein strategaeth genedlaethol. Yn arbennig, 'lleihau allyriadau a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer' er mwyn cefnogi 'cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell'.

132. Rwyf wedi cytuno ar Gronfa Ansawdd Aer i gynorthwyo gyda'r costau llawn o fynd i'r afael â lefelau anghyfreithlon o nitrogen deuocsid yng Nghaerffili a Chaerdydd.

133. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael £6.1m i gynorthwyo gyda gwaith dymchwel tai a thirlunio ar yr A472 yn Hafodyrynys, sef gwaith a fydd yn cynorthwyo i wasgaru allyriadau llygrol o gerbydau. Mae Cyngor Caerdydd wedi cael £19.1m i gyflawni pecyn uchelgeisiol o fesurau, yn cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer tacsis a rhaglen ôl-osod bysiau, a hynny er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol yn ansawdd yr aer yng nghanol y ddinas, yn arbennig Stryd y Castell.

134. Mae ein dull o ymdrin â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, fel Parthau Aer Glân, yn anelu at gyflymu newidiadau mewn dulliau teithio a'r broses o uwchraddio i gerbydau glanach. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yng ngwanwyn 2021. Hefyd, byddwn yn datblygu ein dull o ymdrin â Pharthau Aer Glân er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o'u cyflwyno mewn trefi a dinasoedd lle gallant gynnig ffordd bwysig o leihau allyriadau llygrol.

135. Trwy gyfrwng y Ddeddf Aer Glân i Gymru, byddwn yn cydgrynhoi ac yn gwella deddfwriaethau a fframweithiau rheoleiddio presennol fel y gellir cymryd camau priodol i fynd i'r afael â llygredd aer. Gan ddibynnu ar y llwybr penodol a ddewisir ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau o ostwng allyriadau erbyn 2030 a lleihau cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau o'r fath, amcangyfrifir y bydd cost y camau a gymerir, yn cynnwys camau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon, oddeutu £10m y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y lleihad cysylltiedig o ran cysylltiad y boblogaeth gyffredinol â llygredd aer yn arwain at fanteision iechyd â gwerth ariannol o oddeutu £100m y flwyddyn.

136. Byddwn yn gwella ein galluoedd monitro ac asesu er mwyn cefnogi camau gweithredu penodol yn ymwneud â llygredd aer. Ein bwriad yw rhoi gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer monitro ac asesu llygredd aer ar waith erbyn mis Rhagfyr 2022. Bydd y gwasanaeth yn ategu prosesau adrodd blynyddol yn ymwneud â chyflwr ansawdd aer yng Nghymru.

137. Ym mis Ionawr 2021, byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion i wahardd yr arfer o werthu pren gwlyb a glo pyg/traddodiadol. Ein nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn 2021, gyda'r gwaharddiadau'n dod i rym yn ystod 2023. Ymhellach, bwriadwn fynd ati i reoleiddio er mwyn sicrhau mai'r offer mwyaf effeithlon yn unig y bydd modd eu prynu a'u gosod erbyn 2022. Bydd y gwaith rheoleiddio'n cynnwys yr arfer o osod offer ail law. Ymhellach, rydym eisiau rheoleiddio ynglŷn â'r angen i fynd ati'n flynyddol i gynnal a chadw offer llosgi domestig, yn amodol ar adolygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal erbyn 2023.

### Gweithredu strategaeth tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru

138. Trwy fynd i'r afael â thlodi tanwydd, byddwn yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at y dasg o ymdrin ag ystod o effeithiau negyddol a aiff y tu hwnt i anghenion iechyd, yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol plant ac absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch, yn ogystal â chwarae rhan allweddol wrth leihau allyriadau carbon.

139. Arweiniodd cynllun Arbed Cartrefi Clyd at gyflwyno gwelliannau mewn 1,945 o gartrefi ar draws 19 o brosiectau ar wahân mewn 10 o Awdurdodau Lleol yn ystod 2019-20. Hefyd, rhoddodd cynllun Nyth Cartrefi Clyd becynnau gwella ynni yn y cartref i 4,544 o aelwydydd, ynghyd ag arbedion wedi'u modelu o £282 y flwyddyn mewn biliau ynni.

140. Ymhellach, mae ein rhaglen ynni adnewyddadwy a'n rhaglen effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus, a gefnogir gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, yn pennu llwybr ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni ar lefel leol er budd lleol. Yn 2019-20, fe wnaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gynorthwyo i gyflawni prosiectau a fydd yn darparu incwm ac arbedion biliau ynni o bron i £57m i'r sector cyhoeddus dros oes y prosiectau, ynghyd ag incwm o bron i £15m i grwpiau ynni cymunedol. Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau'n arbed 146,000 tunnell o CO2 dros eu hoes.

141. Yn 2021-22 rydym yn dyrannu £15m o gyllid cyfalaf a £5m o gyllid refeniw ychwanegol, ar ben y cyllidebau sydd i'w cael eisoes, er mwyn sicrhau y gallwn gynyddu manteision ein rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad yn y rhaglenni hyn i £48m yn 2021-22.

**Gweithredu argymhellion yr adroddiad "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell"**

142. Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell. Roedd yr adroddiad annibynnol hwn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i raglen 30 mlynedd i leihau allyriadau carbon yng nghartrefi Cymru. Rwy'n parhau i adolygu ein Strategaeth Tlodi Tanwydd yn unol â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

143. Gan dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gweithio ar gynllun datgarboneiddio tai ar sail yr argymhellion hyn.

**Rhaglen Dileu TB Gwartheg (gan gynnwys y Cynllun Cyflawni, profion ac iawndal)**

144. Rwyf wedi sôn o'r blaen y bydd y system bresennol o dalu iawndal TB yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y ffordd decaf o dalu iawndal yng ngoleuni pwysau parhaus ar y gyllideb a cholli cyllid yr UE. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd cyllid cyfwerth i'w gael ar ôl ymadael â'r UE, er nad oes unrhyw sicrwydd ynglŷn â hyn. Mae'r gofyniad statudol i dalu iawndal TB gwartheg wedi esgor ar bwysau heb ei ariannu ar gyllidebau ers 2015-16.

145. Bydd unrhyw newid i drefniadau iawndal TB yn cael ei gynllunio i annog arferion gorau, datgymell diffyg cydymffurfiaeth a darparu system iawndal deg a chymesur. Cyn i unrhyw newid i'r system iawndal TB gael ei

weithredu, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a bydd yr holl awgrymiadau a’r holl sylwadau’n cael eu hystyried.

146. Mae’r Cynllun Cyflawni, a lansiwyd yn 2017, yn rhan o’r Rhaglen Dileu TB Gwartheg ac mae’n nodi’r gwelliannau manwl y dylid eu cyflwyno yn y tymor byr i’r tymor canolig. Mae’r Cynllun Cyflawni yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru fel bo’r angen.

147. Mae canlyniadau’r gwaith o ddatblygu polisïau ystwyth yn amlwg yn yr ystadegau a gyhoeddir ynglŷn â TB. Mae nifer yr anifeiliaid a laddwyd wedi bod ar duedd ar i lawr ers mis Hydref 2018, ac yn y 12 mis hyd at fis Awst 2020 cafodd 10,462 o wartheg eu lladd er mwyn rheoli TB, o gymharu â 12,799 yn y 12 mis blaenorol – sef lleihad o 18%. Felly, y fantais hirdymor yn sgil buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu polisïau yw lleihau’r gwariant ar iawndal.

**Gweithredu’r Strategaeth Coetiroedd i Gymru**

148. Mae ein strategaeth Coetiroedd i Gymru yn pennu ein nodau i gynyddu’r gorchudd coed yma yng Nghymru er mwyn mynd i’r afael â newid hinsawdd a gwneud yn fawr o’r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sydd ynghlwm wrth ein coetiroedd yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi dechrau ar greu Coedwig Genedlaethol i Gymru, a fydd yn elfen allweddol o gyflawni’r strategaeth.

149. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn cynnwys ardaloedd o goetir ansawdd uchel ledled y wlad, a gaiff eu cysylltu dros amser i greu rhwydwaith trwy Gymru. Cafodd safleoedd cyntaf y Goedwig Genedlaethol eu dynodi ym mis Tachwedd 2020, ac mae prosiectau arddangos wrthi’n cael eu cynnal er mwyn creu ardaloedd newydd o goetir, datblygu coetiroedd cymunedol, meithrin capasiti yn y sector coedwigaeth a phlannu Coedwigoedd Bach cyntaf Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at yr £20m a gafwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, a ddyrannwyd i gyflymu’r gwaith o greu ac adfer coetiroedd.

150. Bydd gwireddu’r uchelgais o gael Coedwig Genedlaethol yn rhaglen hirdymor. Bydd y cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft yn arwain at gynnydd parhaus o ran creu Coedwig Genedlaethol. Bydd yn ariannu prosiectau arddangos newydd ar gyfer plannu ardaloedd newydd o goetir a bydd yn gwella coetiroedd sydd i’w cael eisoes er mwyn iddynt gyrraedd safon Coedwig Genedlaethol. Hefyd, bydd yn cefnogi datblygiad parhaus cynllun cyflawni hirdymor ar gyfer y Goedwig Genedlaethol.

**Cynllun Twf Amgylcheddol**

151. Mae maniffesto’r Prif Weinidog yn ymrwymo i ddatblygu Cynllun Twf Amgylcheddol i fynegi a chydlynu ein gweledigaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd i atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn natur a thyfu’r amgylchedd er budd cenedlaethau’r dyfodol.

152. Bydd y cynllun amgylcheddol yn cael ei weithredu i raddau helaeth trwy ein rhaglen newydd ‘Lleoedd Lleol ar gyfer Natur’. Yn 2020-21, mae eisoes wedi cefnogi mwy na 600 o brosiectau ar draws cymunedau yng Nghymru i adfer a chyfoethogi natur. Hefyd, mae’n gwneud cynnydd yn erbyn naw mesur cyffredin y Prif Weinidog a gaiff effaith yn lleol, fel cynyddu’r arfer o dyfu bwyd yn y gymuned, pryfed peillio, a newid arferion yn ymwneud â lladd llystyfiant a phlaladdwyr sy’n niweidiol i natur.

153. Caiff y rhaglen ei thargedu’n benodol at sicrhau y bydd modd i’n holl gymunedau gael mynediad at natur ‘ar garreg eu drws’, mewn ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi, a hefyd mewn ardaloedd heb fawr ddim mynediad, neu ddim mynediad o gwbl, at natur. Rydym yn adeiladu ar y llwyddiant, a’n bwriad yw ymestyn y rhaglen o £5m yn 2020-2021 i £8m yn 2021-22.

154. Yn 2021-22 bwriadwn roi cyfalaf o £2.6m i’n Rhwydwaith Partneriaethau Natur Lleol. Mae’r partneriaethau hyn wedi bod yn effeithiol iawn eleni, yn enwedig o ran newid arferion lladd er mwyn creu lleoedd i bryfed peillio. Rydym eisiau ymestyn cyrhaeddiad a chyflawniad ein Partneriaethau Natur Lleol, felly bydd ‘cronfa her’ newydd o £3m i’w chael hefyd yn ystod 2021-22 i gynorthwyo prosiectau mwy.

155. Er mwyn hwyluso prosiectau ac adeiladu ar allu’r sector, rydym wedi rhoi cyllid refeniw o £520k i’r rhwydwaith Partneriaethau Natur Lleol yn ystod 2021-22. Bydd y buddsoddiad hollbwysig hwn yn cryfhau gwaith hanfodol Cydlynwyr Partneriaethau Natur Lleol ledled Cymru. Fe fydd hyn, ynghyd â mesurau eraill yn 2021-22, yn ein galluogi i wella mwy ar allu’r sector a chynorthwyo i gyflawni gwaith yn y dyfodol.

156. Unwaith eto, byddwn yn rhoi £1.8m i Cadwch Gymru’n Daclus er mwyn iddo allu cyflawni ei fodel ‘pecynnau rhagdaledig’ arloesol. Mae’r rhaglen wedi bod yn llwyddiant ysgubol eleni. Mae Cadwch Gymru’n Daclus yn darparu’r holl adnoddau, ac mae cymunedau’n darparu’r tir a’r gwirfoddolwyr. Mae’r pecynnau rhagdaledig hyn yn galluogi grwpiau cymunedol bach i greu eu lleoedd eu hunain i natur, heb orfod gwneud cais am grantiau.

**Rheoli Parthau Perygl Nitradau**

157. Cafodd contract ar gyfer darparu cyngor amaethyddol ac amgylcheddol, a chanddo gyllideb flynyddol o £0.25m, ei ddyfarnu am dair blynedd o 1 Hydref 2018. Mae’r contract hwn yn cynnwys darparu llinell gymorth i ffermwyr mewn Parthau Perygl Nitradau presennol fel y gallant gael cyngor ac arweiniad ar y gofynion rheoleiddio. Defnyddir y contract hwn i adolygu ac asesu pa mor effeithiol yw’r mesurau a ddefnyddir i ymdrin â llygredd amaethyddol yn yr ardaloedd hynny. Ymhellach,

defnyddir y contract i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n gysylltiedig â materion ehangach yn ymwneud â llygredd amaethyddol ledled Cymru.

**Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol**

158. Hanfod Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yw lleihau'r perygl i fywyd. Mae'n gwneud hyn trwy atal digwyddiadau llifogydd ac erydu a fyddai, fel arall, yn achosi difrod i gartrefi a busnesau. Rydym wedi gwella'r ffordd yr awn ati i flaenoriaethu cynlluniau lliniaru er mwyn helpu i dargedu cyllid tuag at brosiectau a leolir yn yr ardaloedd â'r risg uchaf, lle dangosir y gwariant ataliol mwyaf effeithiol.

159. Nod ein Strategaeth Genedlaethol yw lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o du llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n cyflawni hyn trwy ei hamcanion a thrwy'r rhaglenni llifogydd ac erydu arfordirol sy'n helpu i amddiffyn cartrefi a busnesau ac atal marwolaethau. Rydym yn gweithio law yn llaw gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cymorth ar gyfer cynlluniau cymunedol a fydd yn lleihau'r perygl i 47,000 a mwy o gartrefi a busnesau.

160. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi mwy na £390 miliwn mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd o amgylch Cymru. Yn 2021-22, bydd y buddsoddiad bron yn £67m. Yn ogystal â chynlluniau cyfalaf, trwy gyfrwng ein rhaglen refeniw rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith yn cynnwys rhagweld, mapio, modelu, monitro'r arfordir, a gweithgareddau allgymorth.

161. Mae adroddiadau ac adolygiadau'n ymwneud â digwyddiadau llifogydd diweddar wedi dangos bod buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru mewn rheoli perygl llifogydd, amddiffyn asedau, codi ymwybyddiaeth a systemau rhybuddio wedi cael effaith gadarnhaol, gan leihau effeithiau stormydd a llifogydd ar gymunedau. Amcangyfrifir bod ein rhwydwaith o asedau arfordirol wedi atal mwy na £3 biliwn o ddifrod yn ystod stormydd gaeaf 2014. Fodd bynnag, ni allwn bwyso ar ein rhwyfau, a rhaid i ni dderbyn y bydd stormydd arfordirol tebyg neu waeth yn digwydd eto a bod angen parhau i fuddsoddi.

162. Yn ôl pob tebyg, bydd newid hinsawdd yn cynyddu perygl llifogydd, nid yn unig trwy godi lefel y môr ond hefyd yn sgil stormydd gwaeth ac amlach, fflachlifoedd, ymchwyddiadau storm a chynnydd ym maint y tonnau. Felly, rhaid i ni barhau i ddysgu ac addasu fel y gallwn leihau niwed i'n cymunedau. Bydd ein Strategaeth a'n rhaglen ehangach ar gyfer llifogydd ac arfordiroedd yn helpu i reoli rhai o effeithiau newid hinsawdd trwy gyfrwng gweithgareddau yn yr ardaloedd hynny sy'n dueddol o ddioddef llifogydd neu erydu arfordirol.

163. Yn unol â'n hymrwymiad tymor hwy, rydym yn darparu £3.4m o gyllid refeniw ychwanegol ar ben y swm o £4m sydd wedi'i gynnal ers 2020-21, ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol. Bydd y cyllid hwn yn ariannu

hyd at 16 o gynlluniau amddiffyn yr arfordir ledled Cymru – cynlluniau a allai leihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol, yn awr ac yn y dyfodol, i fwy nag 16,600 o adeiladau pe bai modd bwrw ymlaen â phob un o'r cynlluniau hyn y flwyddyn nesaf. Mae gwaith ar y gweill yn barod ar ddau gynllun trwy gyfrwng y Rhaglen hon – yn Aberafan (Castell-nedd Port Talbot) ac yn Nwyrain y Rhyl (Sir Ddinbych) – a bydd cynllun arall yn cael ei roi ar waith ddechrau 2021. Disgwylir i waith gychwyn ar yr 13 cynllun sy'n weddill yn ystod 2021-22.

**Y drefn drwyddedu ar gyfer Arddangosfeydd Anifeiliaid**

164. Daeth **Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020** i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Ni chaniateir i syrcasau teithiol ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru mwyach.

165. Fe wnaeth rhai o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 2019 gyflwyno tystiolaeth sy'n awgrymu y dylai gweithgareddau ychwanegol yn ymwneud ag anifeiliaid gael eu hychwanegu at gwmpas y meini prawf trwyddedu, a'n bwriad oedd cynnal trydydd ymgynghoriad byr ym mis Mawrth eleni. Oherwydd pandemig y Coronafeirws a'r ffaith y gallai'r cyfyngiadau effeithio ar nifer o'n rhanddeiliaid, bu'n rhaid gwneud y penderfyniad anodd i ohirio'r ymgynghoriad.

166. Bydd y mathau o Arddangosfeydd Anifeiliaid a fydd yn berthnasol i'r cynllun trwyddedu yn ddibynnol ar y meini prawf terfynol y cytunir arnynt ar ôl cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac yng ngoleuni tystiolaeth ac unrhyw ystyriaethau cyfreithiol. O gofio natur eang y gweithgareddau y gellir eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, wrth benderfynu a yw Arddangosfa Anifail yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau ai peidio fe fydd hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried pob achos fesul un, ochr yn ochr â'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau.

167. Mae llawer o waith wedi'i wneud ar gyflwyno Rheoliadau newydd ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid. Bydd rhwymedigaeth ariannol gyfyngedig ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun trwyddedu hwn – rhagwelwn y byddwn yn gallu gwneud hyn o fewn ein hadnoddau cyfredol.

**Gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti**

168. Ynglŷn â'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019, cafodd ymgynghoriad cyhoeddus terfynol ei gynnal rhwng 22 Mehefin – 17 Awst 2020, lle'r ystyriwyd gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti. Rhwng 8 Mehefin – 22 Awst, cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn unswydd i geisio barn plant a phobl ifanc. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ddau ymgynghoriad yn hynod gefnogol i'r cynnig y dylid gwahardd yr arfer.

169. Un o'r camau angenrheidiol yn unig ar gyfer gwella lles cŵn a chathod mewn safleoedd bridio yng Nghymru yw'r cynnig i wahardd trydydd parti rhag eu gwerthu. Yn gynharach eleni, cyflwynodd aelodau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru adroddiad yn dilyn adolygiad o

Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Caiff yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad, ynghyd â gwybodaeth o nifer o ffynonellau eraill, eu defnyddio fel sail i ystyried y cyfeiriad y dylid ei ddilyn a'r camau y dylid eu cymryd yn y dyfodol.

170. Ar 22 Mehefin 2020, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn ategu'r ffaith fod angen gwneud gwaith i ymdrin â'r rhwystrau mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu o ran gorfodi, cyn mynd ati i gynnig newidiadau i'r Rheoliadau Bridio presennol. Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol i'r adolygiad ar 18 Tachwedd.

171. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys Awdurdodau Lleol a Gweinyddiaethau eraill, i sicrhau ein bod yn cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith barhaol ar safonau lles cŵn a chathod a gaiff eu bridio yng Nghymru.

**Mentrau i leihau llygredd plastig, yn cynnwys cynllun dychwelyd ernes, a datblygu cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr**

172. Mae defnyddio cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr mewn perthynas â phecynnu yn arf pwysig ar gyfer cyflawni'r egwyddor mai'r "llygrwr sy'n talu", ar gyfer cyflawni targedau adfer ac ailgylchu, ac ar gyfer darparu incwm er mwyn helpu i reoli gwastraff.

173. Bydd gwaith yn ymwneud â'r gwaharddiadau arfaethedig ar eitemau plastig untro a deflir i ffwrdd yn parhau trwy ein cyllidebau sylfaenol. Caiff y gwaith ar fwrw ymlaen â'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion yfed, ynghyd â'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu gwastraff, ei wneud ar y cyd. Y DU i gyd ar gyfer y Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, a Chymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes. Rydym yn disgwyl cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r cyllid a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r ddwy raglen hyn.

**Lesley Griffiths**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

## ENVIRONMENT, ENERGY AND RURAL AFFAIRS

### RESOURCE BUDGET

| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2020-21 Final Budget Restated Nov 2020 | Baseline Changes | Revised Baseline | MEG to MEG Transfers | Transfers Within MEG | COVID-19 Allocations | Other Allocations from / Transfer to Reserves | New Plans 2021-22 Draft Budget | COMMENTS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Develop and deliver overarching policy and programmes on sustainable development and natural resource management | 2812 | Environment Legislation & Governance | 181 | 0 | 181 | | | | | 181 | |
| | | **Total Develop and deliver overarching policy and programmes on sustainable development and natural resource management** | **181** | **0** | **181** | **0** | **0** | **0** | **0** | **181** | |
| Develop and implement climate change policy, energy efficiency, Green Growth and environmental protection | 1270 | Fuel Poverty Programme | 3,312 | 0 | 3,312 | | | | 1,058 | 4,370 | Part of £5m towards Clean Energy and Warm Homes |
| | 2809 | Welsh Government Energy Service | 1,636 | 0 | 1,636 | | | | 2,334 | 3,970 | Part of £5m towards Clean Energy and Warm Homes |
| | 2816 | Strategy and Government Relations | 2,834 | 0 | 2,834 | | | | | 2,834 | |
| | 2817 | Radioactivity & Pollution Prevention | 3,415 | 0 | 3,415 | | | | | 3,415 | |
| | 3770 | Clean Energy | 3,835 | 0 | 3,835 | | -378 | | | 3,457 | Part of £5m towards Clean Energy and Warm Homes |
| | 3771 | Climate Change Action | 0 | 0 | 0 | | 378 | | 1,608 | 1,986 | Part of £5m towards Clean Energy and Warm Homes |
| | | **Total Develop and implement climate change policy, energy efficiency, Green Growth and environmental protection** | **15,032** | **0** | **15,032** | **0** | **0** | **0** | **5,000** | **20,032** | |
| Develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation | 2230 | Flood Risk Management & Water Revenue | 27,197 | 0 | 27,197 | -1,145 | | | 3,363 | 29,415 | £1.145m into RSG for East Rhyl Coastal Defence Scheme CRMP<br>£3,363 CRMP Funding |
| | | **Total Develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation** | **27,197** | **0** | **27,197** | **-1,145** | **0** | **0** | **3,363** | **29,415** | |
| Deliver nature conservation and forestry policies and local environment improvement | 2191 | Local Environment Quality | 449 | 0 | 449 | | | | | 449 | |
| | 2192 | Community Involvement | 60 | 0 | 60 | | | | | 60 | |
| | 2195 | Landfill Disposals Tax Communities Scheme | 1,500 | 0 | 1,500 | | | | | 1,500 | |
| | 2832 | Enabling Natural Resources | 4,274 | 0 | 4,274 | | | | | 4,274 | |

Tudalen y pecyn 30

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |
| | 2825 | Biodiversity, Evidence and Plant Health | 3,075 | 0 | 3,075 | | | | 3,550 | 6,625 | Additional Revenue support for Biodiversity |
| | 2827 | Forestry | 1,304 | 0 | 1,304 | | | | | 1,304 | |
| | **Total Deliver nature conservation and forestry policies and local environment improvement** | | **10,662** | **0** | **10,662** | **0** | **0** | **0** | **3,550** | **14,212** | |
| **Sponsor and manage delivery bodies** | 2451 | Natural Resources Wales | 69,033 | 684 | 69,717 | | | | | 69,717 | -70K non recurrent EU Transition<br>1,201K I2S budget reisnstatement<br>'-447k I2S repayment |
| | **Total Sponsor and manage delivery bodies** | | **69,033** | **684** | **69,717** | **0** | **0** | **0** | **0** | **69,717** | |
| **Developing an appropriate evidence base to support the work of the Department** | 2814 | Environment Management (Pwllperian) | 38 | 0 | 38 | | | | | 38 | |
| | **Total Developing an appropriate evidence base to support the work of the Department** | | **38** | **0** | **38** | **0** | **0** | **0** | **0** | **38** | |
| **Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine** | 2829 | Agriculture Strategy | 400 | 0 | 400 | | | | | 400 | |
| | 2831 | Local Authority Framework Funding | 200 | 0 | 200 | | | | | 200 | |
| | 2860 | Agriculture Customer Engagement | 400 | 0 | 400 | | | | | 400 | |
| | 2861 | County Parish Holdings Project | 500 | 0 | 500 | | | | | 500 | |
| | 2862 | EID Cymru | 2,641 | 0 | 2,641 | | | | | 2,641 | |
| | 2863 | Livestock Identification | 1,647 | 0 | 1,647 | | | | | 1,647 | |
| | 2864 | Technical Advice Services | 358 | 0 | 358 | | | | | 358 | Includes £250k for NVZ's. |
| | 2866 | Commons Act | 433 | 0 | 433 | | | | | 433 | |
| | 2838 | Environment Act Implementation | 731 | 0 | 731 | | | | | 731 | |
| | **Total Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine** | | **7,310** | **0** | **7,310** | **0** | **0** | **0** | **0** | **7,310** | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAP administration and making Payments in accordance with EU and WAG rules** | 2787 | Agriculture EU Pillar 1 Direct Payments | 0 | 231,145 | 231,145 | | | | 6,855 | 238,000 | BPS Pillar 1 now in baseline, adjusted for expected BPS forecast at £238m, part of £13.325m Farm Funding allocation |
| | 2789 | Common Agriculture Policy IT | 5,748 | 0 | 5,748 | | | | | 5,748 | |
| | 2790 | Single Payment Scheme Administration | 12,048 | 0 | 12,048 | | | | | 12,048 | |
| | **Total CAP administration and making Payments in accordance with EU and WAG rules** | | **17,796** | **231,145** | **248,941** | **0** | **0** | **0** | **6,855** | **255,796** | |
| **Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20** | 2949 | Rural Development Plan 2014-20 | 26,502 | | 26,502 | | | | 4,280 | 30,782 | Balance of £13.325m. This is new programme replacement funding, not 14-20 EU funding. |
| | **Total Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20** | | **26,502** | **0** | **26,502** | **0** | **0** | **0** | **4,280** | **30,782** | |
| **Evidence based development for Rural Affairs** | 2240 | Research & Evaluation | 520 | 0 | 520 | | | | | 520 | |
| | **Total Evidence based development for Rural Affairs** | | **520** | **0** | **520** | **0** | **0** | **0** | **0** | **520** | |
| **Developing and managing Welsh Marine, fisheries and aquaculture including the enforcement of Welsh Fisheries** | 2830 | EU Funded Fisheries Schemes | 565 | 0 | 565 | | | | 2,100 | 2,665 | £2.1m for Post EU replacement Fisheries, part of £13.325m |
| | 2870 | Marine & Fisheries | 4,935 | 0 | 4,935 | | | | | 4,935 | |
| | **Total Developing and managing Welsh Marine, fisheries and aquaculture including the enforcement of Welsh Fisheries** | | **5,500** | **0** | **5,500** | **0** | **0** | **0** | **2,100** | **7,600** | |
| **Developing and Marketing Welsh Food and Drink** | 2970 | Promoting Welsh Food and Industry Development | 5,300 | -100 | 5,200 | | | | | 5,200 | -100K non recurrent EU Transition from 2020-21 |
| | **Total Developing and Marketing Welsh Food and Drink** | | **5,300** | **-100** | **5,200** | **0** | **0** | **0** | **0** | **5,200** | |
| **Support and Delivery of the Animal Health and Welfare programme / strategy** | 2270 | Animal Health & Welfare Framework | 108 | 0 | 108 | | | | | 108 | |
| | **Total Support and Delivery of the Animal Health and Welfare programme / strategy** | | **108** | **0** | **108** | **0** | **0** | **0** | **0** | **108** | |
| **Management and delivery of TB Eradication and other Endemic Diseases** | 2269 | TB EU Income | -1,300 | 0 | -1,300 | | 1,300 | | | 0 | No EU TB Income, Net off from TB Comp Budget |
| | 2271 | Animal and Plant Health Agency | 15,281 | 0 | 15,281 | | | | | 15,281 | |
| | 2272 | TB Slaughter Payments Costs & Receipts | 10,110 | 0 | 10,110 | | -1,300 | | | 8,810 | No EU TB Income, Net off from TB Comp Budget |
| | 2273 | TB Eradication | 7,500 | 0 | 7,500 | | | | | 7,500 | |

| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2020-21 Final Budget Restated Nov 2020 | Baseline Changes | Revised Baseline | MEG to MEG Transfers | Transfers Within MEG | COVID-19 Allocations | Other Allocations from / Transfer to Reserves | New Plans 2021-22 Draft Budget | COMMENTS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |
| | **Total Management and delivery of TB Eradication and other Endemic Diseases** | | **31,591** | **0** | **31,591** | **0** | **0** | **0** | **0** | **31,591** | |
| **Increase Resource Efficiency and Support Transition to a Circular Economy** | 2190 | Resource Efficiency and Circular Economy | 38,692 | 0 | 38,692 | | | | 6,624 | 45,316 | £6.624 additional Funding to RECE |
| | **Total Increase Resource Efficiency and Support Transition to a Circular Economy** | | **38,692** | **0** | **38,692** | **0** | **0** | **0** | **6,624** | **45,316** | |
| **Promote and support protected landscapes, wider access to green space** | 2490 | Landscape & Outdoor Recreation | 9,966 | 0 | 9,966 | | | | 1,450 | 11,416 | Additional Revenue support for Biodiversity (Part of £5m) |
| | **Total Promote and support protected landscapes, wider access to green space** | | **9,966** | **0** | **9,966** | **0** | **0** | **0** | **1,450** | **11,416** | |
| **ENVIRONMENT, ENERGY AND RURAL AFFAIRS - TOTAL RESOURCE BUDGET** | | | **265,428** | **231,729** | **497,157** | **-1,145** | **0** | **0** | **33,222** | **529,234** | |
| | | Exc Non Cash | | | 475,482 | | | | | 507,559 | |

**CAPITAL BUDGET**

| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2020-21 Final Budget Restated Nov 2020 | Baseline Changes | Revised Baseline | MEG to MEG Transfers | Transfers Within MEG | COVID-19 Allocations | Other Allocations from / Transfer to Reserves | New Plans 2021-22 Draft Budget | COMMENTS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Develop and implement climate change policy, energy efficiency, Green Growth and environmental protection** | 1270 | Fuel Poverty Programme | 23,000 | 0 | 23,000 | | | | 4,000 | 27,000 | Part of £15m for Fuel Poverty and Clean Energy |
| | 2808 | Green Infrastructure | 1,402 | 0 | 1,402 | | | | | 1,402 | |
| | 2809 | **Welsh Government Energy Service** | 4,000 | -2,000 | 2,000 | | | | 11,000 | 13,000 | Part of £15m for Fuel Poverty and Clean Energy |
| | 2816 | **EU Exit and Strategy** | 0 | 0 | 0 | | | | | | |
| | 2817 | Radioactivity and Pollution Prevention | 17,095 | 0 | 17,095 | | | | | 17,095 | |
| | **Total Develop and implement climate change policy, energy efficiency, Green Growth and environmental protection** | | **45,497** | **-2,000** | **43,497** | **0** | **0** | **0** | **15,000** | **58,497** | |
| **Develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation** | 2230 | Flood Risk Management & Water Revenue | 37,500 | 0 | 37,500 | | | | | 37,500 | |
| | **Total Develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation** | | **37,500** | **0** | **37,500** | **0** | **0** | **0** | **0** | **37,500** | |
| **Deliver nature conservation and forestry policies and local environment improvement** | 2832 | Enabling Natural Resources | 6,573 | 0 | 6,573 | | | | | 6,573 | |
| | 2825 | Biodiversity, Evidence and Plant Health | 25,500 | 0 | 25,500 | | -4,500 | | | 21,000 | Less £4.5m tfr to Forestry |
| | | | | | | | | | | | |

Tudalen y pecyn 33

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2827 | Forestry | 150 | -150 | 0 | | 4,500 | | | 4,500 | -150K EU Transition non recurrent. £4.5m tfr from Bio to Forestry |
| | | **Total Deliver nature conservation and forestry policies and local environment improvement** | **32,223** | **-150** | **32,073** | **0** | **0** | **0** | **0** | **32,073** | |
| **Sponsor and manage delivery bodies** | 2451 | Natural Resources Wales | 1,216 | -250 | 966 | | | | | 966 | -250K EU Transition non recurrent |
| | | **Total Sponsor and manage delivery bodies** | **1,216** | **-250** | **966** | **0** | **0** | **0** | **0** | **966** | |
| **Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine** | 2862 | EID Cymru | 2,100 | 0 | 2,100 | | | | | 2,100 | |
| | 2866 | Commons Act | 1,200 | 0 | 1,200 | | | | | 1,200 | |
| | | **Total Develop and deliver overarching policy and programmes on Agriculture, Food and Marine** | **3,300** | **0** | **3,300** | **0** | **0** | **0** | **0** | **3,300** | |
| **CAP Administration and making payments according to EU and WG rules** | 2789 | Common Agriculture Policy IT | 1,505 | 0 | 1,505 | | | | | 1,505 | |
| | | **Total CAP Administration and making payments according to EU and WG rules** | **1,505** | **0** | **1,505** | **0** | **0** | **0** | **0** | **1,505** | |
| **Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20** | 2949 | Rural Development Plan 2014-20 | 9,418 | 0 | 9,418 | | | | | 9,418 | |
| | | **Total Welsh Government Rural Communities: Delivering the programmes within the Rural Development Plan 2014-20** | **9,418** | **0** | **9,418** | **0** | **0** | **0** | **0** | **9,418** | |
| **Developing and managing Welsh Marine, fisheries and aquaculture including the enforcement of Welsh Fisheries** | 2830 | EU Funded Fisheries Schemes | 233 | 0 | 233 | | | | | 233 | |
| | | **Total Developing and managing Welsh Marine, fisheries and aquaculture including the enforcement of Welsh Fisheries** | **233** | **0** | **233** | **0** | **0** | **0** | **0** | **233** | |
| **Developing and Marketing Welsh Food and Drink** | 2970 | Promoting Welsh Food and Industry Development | 100 | -100 | 0 | | | | | 0 | -100K EU Transition, non recurrent |
| | | **Total Developing and Marketing Welsh Food and Drink** | **100** | **-100** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | |
| **Increase Resource Efficiency and Support Transition to a Circular Economy** | 2190 | Resource Efficiency and Circular Economy | 17,500 | 0 | 17,500 | | | | 20,000 | 37,500 | Part of additional Capital allocations from reserves |
| | | **Total Increase Resource Efficiency and Support Transition to a Circular Economy** | **17,500** | **0** | **17,500** | **0** | **0** | **0** | **20,000** | **37,500** | |
| **Promote and support protected landscapes, wider access to green space** | 2490 | Landscape & Outdoor Recreation | 8,900 | 0 | 8,900 | | | | | 8,900 | |
| | | **Total Promote and support protected landscapes, wider access to green space** | **8,900** | **0** | **8,900** | **0** | **0** | **0** | **0** | **8,900** | |
| **ENVIRONMENT & RURAL AFFAIRS - TOTAL CAPITAL BUDGET** | | | **157,392** | **-2,500** | **154,892** | **0** | **0** | **0** | **35,000** | **189,892** | |

**RESOURCE BUDGET - Annually Managed Expenditure**

| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2020-21 Final Budget Restated Nov 2020 | Difference in Forecasts since 2020-21 Final Budget | 2021-22 Forecasts as at Sept 2020 | COMMENTS |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sponsor and manage delivery bodies** | 2452 | NRW Provision for Pensions - AME | 2,400 | 0 | 2,400 | Forecast as per submission to OBR in Sept 2020 |
| | **Total Sponsor and manage delivery bodies** | | **2,400** | **0** | **2,400** | |
| **ENVIRONMENT, ENERGY AND RURAL AFFAIRS - TOTAL RESOURCE AME BUDGET** | | | **2,400** | **0** | **2,400** | |

| **ENVIRONMENT, ENERGY AND RURAL AFFAIRS - SUMMARY** | **Plans as per 2020-21 Final Budget Restated Nov 2020** | **Baseline Changes** | **DEL Changes** | **AME Changes** | **New Plans 2021-22 Draft Budget** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Resource - Revenue | 243,753 | 231,729 | 32,077 | 0 | 507,559 |
| Resource Non - Cash | 21,675 | 0 | 0 | 0 | 21,675 |
| Capital | 157,392 | -2,500 | 35,000 | 0 | 189,892 |
| **Total Resource & Capital** | **422,820** | **229,229** | **67,077** | **0** | **719,126** |
| | | | | | |
| **Total AME** | **2,400** | **0** | **0** | **0** | **2,400** |
| | | | | | |
| **ENVIRONMENT, ENERGY AND RURAL AFFAIRS - TOTAL BUDGET** | **425,220** | **229,229** | **67,077** | **0** | **721,526** |

## NON FISCAL DEL ALLOCATIONS

| MEG | DEL | | | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| | DESCRIPTION | BEL | BEL Description | £'000 |
| | | | | |
| EE&RA | NRW Capital Charges | 2451 | Natural Resources Wales | 10,000 |
| | CAP IT | 2789 | CAP IT | 5,748 |
| | Marine & Fisheries Depreciation | 2870 | Marine & Fisheries | 450 |
| | Forestry (Transfer of functions from DEFRA) | 2827 | Forestry | 83 |
| | EID Cymru | 2862 | EID Cymru | 2 |
| | RPW Online / CAP Reform | 2790 | SP Administration | 5,354 |
| | Pwllpeiran Depreciation | 2814 | Environment Management (Pwllperian) | 38 |
| | **EE&RA Total** | | | **21,675** |


https://cynulliad.sharepoint.com/sites/CCERA/Shared Documents/Meetings - formal/2021/1_Spring term/CCERA(5)-01-21-14 January 2021/Paper_Min EE&RA_ CCERA 2021-22 - Draft Budget - EERA BEL Table Paper_Min EE&RA_ CCERA 2021-22 - Draft Budget - EERA BEL Tabl

Eitem 4.1

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y trefniadau interim ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu.

**Cynigion y Grŵp Gorchwyl ar gyfer mesurau interim a'r Ymateb i'r cynigion hyn**

Rydych wedi gofyn am gopi o adroddiad Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ar fesurau interim a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Lluniodd y Grŵp Gorchwyl bapur ar y trefniadau parhaol. Mae hwn wedi cael ei gyhoeddi, ynghyd â'm hymateb https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol, yn unol â'r ymrwymiad a wneuthum pan fûm yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

**Yr ymateb i'r cynigion hyn**

Hefyd ystyriodd y Grŵp Gorchwyl opsiynau ar gyfer mesurau interim posibl yn benodol i ymateb i'r posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb ar ddiwedd Hydref 2019. Lluniodd swyddogion ddogfen yn seiliedig ar y mewnbwn hwn a oedd yn argymell dull fesul cam ar gyfer mesurau interim. Roedd yr adroddiad hwn yn llywio'r cyngor gweinidogol a dderbyniwyd ym mis Hydref 2019. Fel y dywedais yn fy adroddiad penderfyniad ar y pryd, cytunais i ddull fesul cam o ddatblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru, ac i fecanwaith cwyno interim cychwynnol gael ei roi ar waith pe byddem wedi ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref. Ni luniodd y Grŵp Gorchwyl ei hun adroddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd y trefniadau interim a gafodd eu hystyried ar yr adeg honno eu rhoi o’r neilltu, gan na wnaethom adael yr UE heb gytundeb ar y pryd hwnnw, a symudodd y ffocws i weithio tuag at egluro a therfynu’r trefniadau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru ar ôl inni ymadael â’r UE.

**Cwestiwn 3 a 4: Esboniad Manwl o’r System Gwyno interim a mesurau interim ychwanegol y tu hwnt i’r mecanwaith cwyno i fynd i’r afael â’r bwlch yn y trefniadau llywodraethu**

Rhoddir mesurau interim ar waith fesul cam o 1 Ionawr 2021.

I ddechrau bydd gwefan a mecanwaith ar gyfer codi pryderon ynghylch y ffordd mae cyfreithiau amgylcheddol yn gweithredu.

Penodir aseswr interim i ystyried y pryderon a chynnal adolygiadau systemig ehangach mewn perthynas â’r ffordd mae cyfreithiau amgylcheddol yn gweithredu. Pan fydd aseswr yn ystyried bod hynny’n briodol, ceisir rhagor o dystiolaeth a/neu gyngor arbenigol fel rhan o broses adrodd.

Mae’n bwysig nodi y bwriedir i’r trefniadau hyn fod am gyfnod dros dro yn unig, ac rwy’n bwriadu i’r mesurau interim helpu i ddatblygu a gosod y sylfeini ar gyfer ein hymateb parhaol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliad i ddatblygu syniadau gyda’r nod o gyflwyno Papur Gwyn ar y trefniadau parhaol ar ôl etholiadau’r Senedd mis Mai nesaf.

Mae’n bosibl y cymerir camau eraill wedyn i gryfhau’r trefniadau interim, ochr yn ochr â datblygu corff cysgod cyn i’r ddeddfwriaeth gael ei gosod a’r corff newydd gael ei sefydlu yn gyfreithiol.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Elin Jones AS
Llywydd

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lywydd,

**Llywodraethu amgylcheddol ar ôl trefniadau pontio’r UE**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 19 Tachwedd 2020, yn gofyn am farn y Pwyllgor ar y materion a godwyd gyda chi gan gynrychiolwyr o Gyswllt Amgylchedd Cymru ('WEL').

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn nhrefniadau llywodraethu amgylcheddol Cymru yn y dyfodol, ac mae wedi gwneud gwaith helaeth yn y maes polisi hwn. Cyhoeddwyd adroddiad rhagarweiniol gennym ym mis Mehefin 2018, ac yna adroddiad manwl ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion o ran polisi ym mis Hydref 2019. Roedd yr adroddiadau hyn yn edrych yn fanwl, ymhlith pethau eraill, ar fod angen i drefniadau dros dro gael eu rhoi ar waith ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, ac y dylai’r rhain barhau nes sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am y trefniadau dros dro, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau Asesydd Diogelu'r Amgylchedd dros dro. Wrth roi tystiolaeth i ni ar 10 Rhagfyr 2020, nid oedd y Gweinidog yn gallu rhoi esboniad ar sut y bydd y system gwynion yn gweithredu’n ymarferol, gan gynnwys sut yr ymdrinnid â chwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru ynghylch torri cyfraith amgylcheddol posibl. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r Trefnydd yn cwrdd â chi cyn bo hir i drafod pa rôl a allai fod gan y Senedd wrth ystyried cwynion o'r fath.

Er na fyddem yn dymuno achub y blaen ar ganlyniad eich trafodaethau, hoffem dynnu eich

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

sylw at y materion a ganlyn.

Roedd ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar â chynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol yn awgrymu eu bod yn awyddus i'r Senedd chwarae rôl wrth ystyried cwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn deillio, yn rhannol o leiaf, o bryderon y gall torri cyfraith amgylcheddol posibl gan Lywodraeth Cymru fynd heb ei wirio nes bod trefniadau llywodraethu parhaol ar waith. Rydym ninnau yr un mor bryderus â'r sector amgylcheddol. Fodd bynnag, dylid ystyried yn fanwl sut y gallai'r Senedd gyflawni'r gwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o anodd pan nad oes dim manylion ar gael ynghylch sut y bydd y trefniadau'n gweithio'n ymarferol.

Mewn llawer o achosion, y llysoedd sy'n ystyried unrhyw achos honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan gorff cyhoeddus, drwy gynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad a wnaed ganddynt. Mae gan y llysoedd yr arbenigedd priodol i gydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd o ran y partïon ym mhob achos, ac i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid dileu penderfyniad penodol oherwydd ei fod yn anghywir yn ôl y gyfraith. Mae mynd ar drywydd materion drwy broses y llys fel hyn yn ddrud, fodd bynnag, ac mae'n gofyn am gyfarwyddyd gan gynghorwyr proffesiynol a gall gymryd misoedd lawer, neu hyd yn oed flynyddoedd, i ddatrys anghydfodau.

Pe bai gan y Senedd rôl yn ymdrin â chwynion o'r fath, byddai angen cyflwyno gweithdrefnau newydd a manwl. Rydym yn rhagweld, o ystyried natur arbenigol a thechnegol y gwaith hwn, y byddai goblygiadau i'r Comisiwn o ran adnoddau i ddarparu'r gefnogaeth briodol.

Gobeithio y bydd yr uchod yn ddefnyddiol i chi yn eich trafodaeth gyda'r Trefnydd ac wrth lunio'ch ymateb i Gyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).

Yn gywir,



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

---

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lesley,

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amgylchedd (y Memorandwm atodol) wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 4 Chwefror 2021.

Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r Memorandwm atodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

**Cymal 107 ac Atodlen 16: Y defnydd o nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol**

Mae'r Memorandwm Atodol yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno.

1. Mae'r Memorandwm atodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn "cefnogi'r safbwynt polisi a ddarperir gan y ddarpariaeth". A allwch chi nodi'ch rhesymau dros hyn?

2. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod rhanddeiliaid Cymru wedi cael digon o gyfle i ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r polisi?

3. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'n gywir buddiannau Cymru?

4. O wybod eich barn mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol, a allwch egluro a ydych wedi mynd ar drywydd, neu a ydych yn mynd ar drywydd, diwygiad(au):

- i roi i Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol fel ag y maent yn ymwneud â Chymru (gan sicrhau o ganlyniad gyfranogiad y Senedd o ran craffu ar y pwerau hyn), neu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

- i sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru yn y broses ar gyfer rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol Atodlen 16?

5. Os nad yw'n fwriad gennych fynd ar drywydd dim un o'r diwygiadau uchod, sut y byddwch yn sicrhau y bydd rheoliadau yn dyfodol a wneir o dan Atodlen 16 yn cyd-fynd â pholisi a buddiannau Cymru ac yn cynrychioli'r polisi a buddiannau hyn? Pa sicrwydd byddwch chi'n ei geisio gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth?

Mae Atodlen 16 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn ymwneud â gorfodi, a all gynnwys rhoi swyddogaethau a phwerau i 'awdurdod gorfodi'.

6. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw 'awdurdod gorfodi' a phwy allai hyn fod? Beth yw canlyniad unrhyw drafodaethau o'r fath?

**Materion sydd heb eu datrys mewn perthynas â'r Bil Amgylchedd**

Yn eich llythyr, dyddiedig 5 Tachwedd 2020, sonnir am drafodaethau cynhyrchiol â Defra ar ddiwygiad arfaethedig i gryfhau'r ddyletswydd yng nghymal 26(4) (cymal 24(4) gynt) ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ('OEP') i ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig. Fe nodwn, fodd bynnag, nad ystyriwyd diwygiad i'r perwyl hwn yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

7. A allwch egluro a ydych wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i gymal 26(4) yn ddiweddarach yn y broses ddiwygio? Os nad ydych, a allwch chi egluro pa sicrwydd a gawsoch gan Lywodraeth y DU y bydd cydweithredu rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 14 Ionawr 2021 fan bellaf.

Yn gywir

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

***By email only***

**Mike Hedges MS**
**Chair**
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**
**Senedd Cymru**
SeneddCCERA@senedd.wales

c/o Clerk to the Committee
Room T3.40
The Scottish Parliament
Edinburgh
EH99 1SP

ecclr.committee@parliament.scot

4 December 2020

Dear Mr Hedges,

**Common Framework on a UK Emissions Trading Scheme**

At its meeting on 1 December 2020, the Environment, Climate Change and Land Reform Committee agreed to write our sister Committees in legislatures across the UK to highlight recent issues raised with regards to the above Common Framework.

The Cabinet Secretary for Environment, Climate Change and Land Reform, Roseanna Cunningham MSP, wrote to the Committee on 10 November 2020 to provide an update on the Common Framework for a UK Emissions Trading Scheme (ETS) and highlight concerns in a number of areas. In particular, the Cabinet Secretary outlined the continued risk to the process of setting up a UK ETS in time to take effect from 1 January 2021 as a result of the UK Government simultaneously preparing for an alternative, reserved Carbon Emission Tax (CET). The letter highlights concerns that a reserved CET, instead of a UK ETS, would mean that Scottish Ministers would no longer be responsible for, and the Scottish Parliament would have no direct scrutiny of, a key decarbonisation mechanism covering 28% of Scotland's emissions.

With the UK ETS Common Framework currently progressing through all four legislatures, the Committee is concerned that there is a lack of clarity about the circumstances in which the UK Government would seek to introduce a Carbon Emissions Tax as an alternative to a standalone UK ETS. The Committee has previously raised concerns in relation to a possible CET, the lack of discussion on this and the impact of the approach – particularly in reducing access to the most cost-effective decarbonisation routes with carbon leakage protection (see 26 October 2018; 1 November 2018). More recently, the Committee explored the issue of the CET with the Cabinet Secretary while formally considering The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020 on 1 September 2020, noting issues around flexibility, scrutiny, and uncertainty at the time. The Committee recognises that a final decision on a UK ETS or a CET may be dependent on the outcome of ongoing EU-UK negotiations, but it is nevertheless incumbent on the UK Government to make clear its intentions at

the earliest available opportunity. The Committee will be writing directly to the UK Government to express these concerns and seek clarity as a matter of urgency.

Devolved administrations across the UK have raised similar concerns and our sister committees have also written to the UK Government to highlight on-going issues about the role of the devolved administrations in decisions around the CET; see, for example, the House of Commons BEIS Committee (23 October 2020) and House of Lords Common Framework Scrutiny Committee (7 October 2020; 27 October 2020).

We are committed to working collaboratively with legislatures across the UK and recognise the importance of sharing our concerns about the impact and effect of a CET, as well as the extent to which the UK Government's consideration of a CET is putting the establishment/delivery of a UK ETS at risk. Please do not hesitate to get in touch if you have any questions on the above.

Yours sincerely,

Gillian Martin MSP
Convener
**Environment, Climate Change and Land Reform Committee**

Gillian Martin MSP
Convener, Environment, Climate Change and Land Reform Committee

10 December 2020

Dear Ms Martin

Thank you for your letter, dated 4 December 2020, in relation to the UK Emissions Trading Scheme (UK ETS) Common Framework.

The Senedd's Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee ('the Committee') began its scrutiny of the UK ETS Common Framework in early October 2020. Given the delay in the publication of the provisional Framework Outline Agreement, and the ongoing uncertainty over a reserved Carbon Emissions Tax ('CET'), our work on the UK ETS Common Framework has been put on hold.

Nevertheless, we are continuing to keep apace with developments in this policy area. Like you and our counterparts in the other UK legislatures, we are concerned there remains a lack of clarity about whether, and in what circumstances, the UK Government would seek to introduce a CET. It is entirely unsatisfactory that, with less than four weeks until the UK will no longer participate in the EU ETS, the UK Government has yet to make clear its position. With just days until EU-UK negotiations come to an end, we are keen to understand how the outcome of the negotiations will influence the UK's Government's final decision on whether to introduce a CET.

Much like the Scottish Government, the Welsh Government has expressed strong opposition to the introduction of a CET. We are aware that the devolution settlement does not guarantee a formal role for Welsh Ministers in a CET, nor has the UK Government offered to reach a political agreement on cooperative working.

We understand, however, that the Exchequer Secretary to the Treasury has indicated she is prepared to listen to the Minister's views on a CET. The Minister told us she would be seeking a discussion on the rationale and relative merits of taxation versus a trading scheme, involving all four nations, in order to reach a decision which fairly takes account of their respective responsibilities over climate change. We will be following up this matter with the Minister presently.

I very much welcome the opportunity to exchange our Committees' views on emerging developments in relation to the future of carbon pricing in the UK, and indeed on any other matters of mutual interest.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

Yours sincerely,

Mike Hedges

**Chair of Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS/MS
Chair
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Yn dilyn fy llythyr ar 13 Tachwedd, rwyf bellach mewn sefyllfa i'ch diweddaru ar nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Fframwaith Drafft Sylweddau Peryglus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn diweddaru'r ymatebion a roddais o'r blaen:

**Proses graffu a llinell amser**

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Rhyddid Gwybodaeth dros dro, y Concordat a'r MOU wedi'i ddiweddaru y cyfeirir ato yn y FOA drafft?**

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y fframwaith cytundeb amlinellol dros dro yn ymwneud â Rheoliadau COMAH nad yw'n rhan o'r fframwaith hwn. Ers imi ateb yn flaenorol, cytunwyd na fyddwn yn mynd ar drywydd concordat mwyach. Felly bydd y fframwaith yn cynnwys y testun a nodir yn y fframwaith cytundeb amlinellol dros dro yn unig, a'r rhannau gweithredol i'w nodi yw adrannau 6, 8, 11, 12 a 13.

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r MOU wedi'i ddiweddaru ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

Ni chynigir concordat mwyach.

**11. A allwch egluro'r llinell amser ar gyfer craffu Senedd o'r fframwaith cytundeb amlinellol dros dro a dogfennau cysylltiedig?**

Yn yr un modd â'r fframweithiau eraill, bydd gan y Senedd amser i ystyried hyn yn llawn yn 2021.

**Trefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y fframwaith**

**13. A allwch egluro a fydd adroddiad o'r cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ar gael i'r cyhoedd?**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr adolygiad o'r fframwaith yn cynnwys rhanddeiliaid felly rhagwelir y bydd adroddiad o'r cyfarfod adolygu ar gael i'r cyhoedd.

**14. A allwch chi egluro o dan ba amgylchiadau na fyddai'n briodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

Rydym yn bwriadu cynnwys rhanddeiliaid yn yr adolygiad ond fel gyda'r holl waith ymgysylltu dylai'r broses fod yn gymesur â'r materion sy'n cael eu hystyried. Os mai ychydig iawn o faterion sydd wedi'u codi mewn perthynas â chynllunio sylweddau peryglus yn y cyfnod cyn yr adolygiad, byddai hyn yn awgrymu y byddai dull llai ffurfiol o adolygu yn briodol.

**15. A allwch chi gadarnhau a fydd y Senedd yn gallu cyfrannu at y broses adolygu ar gyfer y fframwaith a sut?**

Ni ragwelir y bydd y Pwyllgor yn cael ei wahodd yn ffurfiol i gymryd rhan yn y broses adolygu. Fodd bynnag, byddai aelodau'r Senedd yn gallu ymgysylltu yn yr un modd â rhanddeiliaid eraill.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymatebion uchod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi i gynorthwyo wrth graffu'r Fframwaith Drafft. Gallaf gadarnhau y bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ar y cyd â'r gweinyddiaethau eraill ynghylch y broses adolygu fframwaith a fformat terfynol y Fframwaith.

Yr eiddoch yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Cc: Y Cwnsler Cyffredinol

# Housing, Communities and Local Government Committee

House of Commons, London SW1A 0AA
Tel 020 7219 5364 Email hclgcom@parliament.uk Website www.parliament.uk

Rt Hon Christopher Pincher MP
Minister of State for Housing
Ministry of Housing, Communities and Local Government
4th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

17 December 2020

Dear Chris,

**Hazardous Substances (Planning) Common Framework**

We are grateful for your letter (24 November) inviting us to scrutinise the provisionally confirmed Hazardous Substances (Planning) Common Framework. We are grateful, too, for your explanation of how MHCLG developed the framework in collaboration with the devolved administrations and of the role of the committee's scrutiny in the process of approving common frameworks.

We began our scrutiny of the framework with a call for evidence on Tuesday 1 December that ran until Monday 14 December. In that time, we also sought evidence directly from key stakeholders and liaised with our counterpart committees in the devolved legislatures and with the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee.

We welcome the detail in the provisional framework, especially the nine principles for future working, which provide a clear basis for future collaboration between the UK government and the devolved administrations. We particularly welcome the expectation that administrations will consider appropriate evidence and expert advice on the levels and types of substances to be regulated under the framework.

In our call for evidence, we raised specific questions about regulatory consistency, the consequences of policy divergence across the nations of the UK, the process for consulting devolved administrations before ratifying changes to relevant international agreements and the process for dispute resolution. We are grateful for the comprehensive responses you have given to those questions in your submission to our inquiry, which we have published on our website.

You state in the cover sheet that the framework is non-contentious, and this was borne out in the evidence we received to our inquiry, including in liaison with our counterpart committees. We note evidence from the Health and Safety Executive that states that "regulatory consistency across the four nations is not always necessary, primarily because of local needs, however significant divergence may provide some difficulties for

HSE, both operationally and in terms of ensuring the UK meets its International commitments." The Committee believes, to avoid an adverse impact on the efficiency of HSE's role as a statutory consultee, that the framework should include provision whereby, in the event of any proposed legislative divergence, MHCLG and the devolved administrations engage with HSE, at an early stage to manage the impact of any proposed changes.

We also note the concern expressed by the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee about the lack of planned external scrutiny during any review of the procedure for common frameworks. Like the Lords committee, we recommend that the government commit to seeking evidence from stakeholders, including non-industry stakeholders, during the review process and that the report from the review be published and laid before the UK parliament and devolved legislatures.

We have no further concerns and look forward to the publication of the final framework.

I am copying this letter to Chairs of the relevant devolved Committees and the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee.



**Clive Betts MP**
**Chair, Housing, Communities and Local Government Committee**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/4388/20

Cadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig,
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick a Mike

**Bil Amaethyddiaeth y DU – Trydydd Darlleniad a gwelliannau "ping pong"**

Ar 28 Medi, gosodais y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Amaethyddiaeth. Rhoddodd y Senedd ei gydsyniad i'r Bil y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, yn ystod y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, cyflwynodd Llywodraeth y DU nifer o welliannau technegol sydd bellach yn rhan o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU hefyd ddarpariaeth newydd sy'n ymwneud ag adroddiadau ar gytundebau masnach rydd wrth ystyried y gwelliannau yn y Senedd ("ping pong"), sydd bellach yn rhan o'r Ddeddf. Ceir crynodeb o'r darpariaethau hyn isod:

**<u>Adran 17 (Parhau â rhaglenni'r UE: pŵer i ddarparu cymorth ariannol)</u>**

Mae adran 17 yn caniatáu i "awdurdod cenedlaethol priodol" roi cymorth ariannol i restr benodol o bobl/unigolion. Mae'r gwelliant a wnaed yn y Trydydd Darlleniad yn ymestyn y diffiniad o "awdurdod priodol" i gynnwys Gweinidogion yr Alban mewn achosion o gytundeb neu raglenni gweithredol a gymeradwywyd o ran yr Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adran 18 (deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir)**

Mae adran 18 yn darparu rhestr o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, sefydliadau cynhyrchwyr ffrwythau a llysiau a gwenynyddiaeth sydd ag effaith uniongyrchol o dan y Cytundeb Ymadael mewn perthynas â rhaglenni a gweithgareddau sy'n bodoli eisoes ac a fydd yn dod yn ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir er mwyn cael effaith at ddibenion eraill.

Mae'r gwelliant hwn yn cynnwys categori newydd o ddeddfwriaeth yr UE yn y rhestr. Mae'r categori newydd o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â mesurau hybu, ac mae'r gwelliannau'n cael effaith ledled y DU.

**Adran 42 (Adroddiadau sy'n ymwneud â chytundebau masnach rydd)**

Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gerbron y Senedd adroddiad sy'n esbonio a yw'r mesurau, neu i ba raddau y mae'r mesurau yn gymwys i fasnach cynnyrch amaethyddol penodol mewn cytundebau masnach rydd penodol yn gyson â chynnal lefelau gwarchodaeth statudol y DU mewn perthynas â bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu iechyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Y diffiniad o "lefelau gwarchodaeth statudol y DU" yw'r lefelau gwarchodaeth sydd, ar adeg llunio'r adroddiad, yn cael eu darparu ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth neu oddi tani sy'n cael effaith yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni.

Ni chaniateir i gytundeb masnach rydd sy'n cynnwys mesurau sy'n gymwys i fasnach cynnyrch amaethyddol gael ei osod gerbron y Senedd o dan Ran 2 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod adroddiad o'r fath yn gyntaf. Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddarparu copi i bersonau penodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

**Adran 56 (rhychwant)**

Mae'r gwelliant a wnaed i adran 56 yn ganlyniadol ar gynnwys Gweinidogion yr Alban yn adran 17 (manylion uchod). Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod adran 17 yn ymestyn i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

**Atodlen 5 (darpariaeth o ran Cymru: Gwenynyddiaeth)**

Mae'r gwelliant yn cymhwyso'r weithdrefn penderfyniad negyddol i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 5 o Atodlen 5 (gwenynyddiaeth), oni bai bod adran 50(5) yn gymwys. Os yw adran 50(5) yn gymwys, byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Atodlen 6 (darpariaeth o ran Gogledd Iwerddon: Gwenynyddiaeth)**

Mae'r gwelliant yn cymhwyso'r weithdrefn penderfyniad negyddol i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 6, oni bai bod adran 50(5) yn gymwys. Os yw adran 50(5) yn gymwys, byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae’r Bil bellach wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ond roeddwn am dynnu’r gwelliannau hyn at sylw’r Aelodau.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Eitem 4.8

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/3999/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

16 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Tachwedd ynghylch Mesur Pysgodfeydd y DU a'r Gorchymyn adran 109 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 23 Tachwedd.

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 ac Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yn cynnwys pwerau cydredol. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno Gorchymyn adran 109 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddarparu eithriad rhag y gofynion cydsynio ym mharagraffau 8 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Gosodwyd y Gorchymyn ar 10 Rhagfyr.

Mae'r eithriad hwn yn ceisio sicrhau na fydd angen cydsyniad Gweinidog y Goron pan fydd y Senedd yn deddfu i ddileu swyddogaethau cydredol mewn deddfiadau penodedig, gan gynnwys Deddf Pysgodfeydd 2020 ac Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE sy'n ymwneud â Physgodfeydd. Fodd bynnag, mae'r eithriad arfaethedig yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol iawn mewn perthynas â rheoleiddio cychod pysgota.

Cyfeiriais at yr eithriadau hynny yn fy llythyr dyddiedig 30 Hydref, ac rydych wedi gofyn am ragor o fanylion amdanynt. Mae'r eithriadau'n diogelu swyddogaethau presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio cychod pysgota Prydeinig, ar wahân i gychod pysgota Cymru, ym mharth Cymru. Rydym yn cydnabod bod swyddogaethau o'r fath yn nodwedd unigryw o'r trefniadau i ddatganoli pysgodfeydd yn y DU a bod y sail resymegol sy'n cael ei rhoi dros yr eithriad hwn yn gyson â'r trefniadau presennol ar gyfer datganoli pwerau gweithredol a deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â physgodfeydd ac sydd eisoes yn eu lle ar draws y llyfr statud ehangach ar gyfer pysgodfeydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydych hefyd yn nodi yn eich llythyr y byddech, os yw'n briodol gwneud hynny, yn awyddus inni drefnu bod yr ohebiaeth hon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar gael i'r cyhoedd. Rwyf wedi atodi'r llythyr dyddiedig 5 Hydref oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru dyddiedig 5 Hydref.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ref: 495SUB 20

**Lesley Griffiths MS**
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

5th October 2020

Dear Lesley.

I am writing in respect of the application of the Government of Wales Act 2006 (Amendment) Order 2020 to the Fisheries Bill ahead of the LCM debate on the Bill in the Senedd tomorrow.

I can confirm, subject to UK government-wide clearance, that the Order will carve out concurrent functions established in the Fisheries Bill from the relevant requirements in Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 to allow the Senedd to remove them in future without needing the UK government's agreement. This is subject to explicit exclusions to be agreed between the UK government and the Welsh Government in light of complexities around the regulation of fishing vessels.

I am copying this letter to the Parliamentary Under Secretary of State for DEFRA and the Counsel General and Minister for European Transition.

Yours ever.

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Eitem 4.9

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

25 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidog

**Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Tachwedd mewn cysylltiad â Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019, lle'r ydych yn dweud:

"Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad ar drwsio a chynnal a chadw eich cyfarpar sefydlog a iawndal diwedd tenantiaeth, nid fy mwriad oedd cynnwys trwsio ac adnewyddu draeniau caeau ac argloddiau llifogydd fel rhwymedigaethau newydd o fewn y rheoliadau diwygio."

Mae'n amlwg na chafodd dim gwrthwynebiad ei nodi i gynnwys y materion hyn yn ystod ymgynghoriad cynharach Llywodraeth Cymru. Nid ydych, yn eich ymateb, wedi egluro'r rhesymau dros eich penderfyniad. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad o'r fath iddo.

Heb eglurhad gennych ynghylch eithrio'r materion hyn, mae'r Pwyllgor yn credu y dylech gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Atodlen 1 paragraff 1 (2) o Reoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: LG/425/20

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddNHAMG@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar atgyweirio a chynnal cyfarpar sefydlog ac iawndal ar ddiwedd tenantiaeth yn gefnogol iawn i'r syniad o sicrhau mwy o gysondeb gyda'r drefn yn Lloegr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a chamddealltwriaeth o fewn y sector tenantiaethau amaethyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran daliadau trawsffiniol gan ei fod yn lleihau unrhyw gymhlethdod gweinyddol a hefyd yn golygu nad oes angen cymorth proffesiynol ychwanegol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd rwyf wedi penderfynu cynnal cyfliniad rheoleiddiol a pheidio â chyflwyno rhwymedigaethau newydd o safbwynt atgyweirio systemau draenio tir a phonciau llifogydd.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dr N. I. D. Fenwick, Head of Policy, Farmers' Union of Wales, Llys Amaeth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BT
Tel: 01970 820820
Fax: 01970 820821
E-mail: nick.fenwick@fuw.org.uk

Mike Hedges MS
Chair
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales

4th December 2020

Dear Chair

I understand following your comments during the evidence session on the 26th November 2020 that the Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee is likely to hold an inquiry into the UK Government's Spending Review and its implications for agricultural and rural development funding.

We would fully support such an inquiry given the far-reaching consequences of what was announced as part of the Spending Review and would like to submit the below comments for consideration by the Committee.

I hope these outline why the FUW believe that the £242 million allocation for Welsh agriculture and rural development represents a cut to Welsh funding of at least 27% and up to 41% if Pillar transfer funds are included, and that the allocation is based on creative accounting and a disingenuous interpretation of the commitments made by numerous Secretaries of State and in the 2019 Conservative Manifesto.

Since we are currently in discussion with the Welsh Government regarding the specific implications of the cut, we are not in a position to speculate about what these may be.

However, I can confirm that we have made it clear to the Welsh Government that cuts to the 2021-22 Basic Payment budget should not be made given the far-reaching consequences of these at a time when Welsh farm businesses are expected to be under major pressures as a result of the UK's departure from the EU, irrespective of whether a trade deal is agreed in the coming weeks.

Yours sincerely

Nicholas Fenwick
**Head of Policy**

# FARMERS' UNION OF WALES ANALYSIS AND OBSERVATIONS ON CUTS TO WELSH AGRICULTURAL AND RURAL DEVELOPMENT FUNDING FOR THE FINANCIAL YEAR 2021-2022 ANNOUNCED IN THE 25th NOVEMBER 2020 SPENDING REVIEW

4th December 2020

1. Leaders of the Brexit campaign promised that leaving the EU would not lead to reduced funding for farming and rural areas.

2. During the Second reading of the 2017-2019 Agriculture Bill, the then Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, Michael Gove, stated that agricultural funding would not be Barnettised and that the settlement which allocates money to Wales on rural and agricultural criteria will be maintained.

3. The then Secretary of State for Wales, Alun Cairns, reinforced that commitment on the 11th October 2018.

4. The 2019 Conservative Manifesto stated *"...we will guarantee the current annual [Common Agricultural Policy (CAP)] budget to farmers in every year of the next Parliament."*

5. The EU CAP budget for Wales, for the period 2014-2020, confirmed on 8th November 2013 by the then Secretary of State for Environment Owen Paterson was *"…a pillar 1 (direct payment) allocation of around €2,245 million, and pillar 2 allocation of around €355 million."*[1]

6. This is a total of €2.6 billion over the seven year (2014-2020) CAP budgetary period – an average of £331 million a year based on the £0.89/€ exchange rate fixed by the UK Government.

7. On 25th November 2020 the UK Government announced that Wales' 2021-2022 financial year allocation for agriculture and rural development would be £242 million - £89 million (27%) less than the average annual EU CAP allocation for the period 2014-2020.

8. The £242 million figure for the 2021-2022 financial year is £95 million (28%) less than the £337 million received in the 2019 funding 'baseline' defined by the UK Government to calculate Wales' allocation.

9. The UK Government maintains that the total budget available to Wales in 2021-2022 should be judged to be the sum of the £242 million announced on 25th November 2020 and the £95 million in unspent EU funding from the 2014-2020 funding period.

10. Under the EU's 'N+3' rule, the Welsh Government is entitled to spend money from the 2014-2020 Rural Development Programme budget in the three years after the end of the budgetary period to which the money 'belongs'.

[1] https://www.gov.uk/government/news/uk-cap-allocations-announced

11. The FUW maintains that since the £95 million is part of the 2014-2020 EU budget, it should not be used as part of the UK Government's 2021-2022 calculation.

12. The average annual EU CAP budget for Wales for the 2014-2020 period was £286 million (Pillar 1) plus £45 million (Pillar 2).

13. 15% of the £286 million Pillar 1 budget is transferred annually to Pillar 2 under the 'Pillar transfer' mechanism, reducing the annual amount paid to farmers through Direct (Pillar 1) Payments to £243, and increasing the average annual EU funding for Pillar 2 (Rural Development) to around £90 million.

14. On 30th December 2019, the UK Government announced £243 million would be made available for Welsh Direct payments in 2020.

15. The *total* CAP replacement funding of £242 million for the 2021-2022 financial year announced by the UK Government on 25th November 2020 is therefore £1 million *below* the 2020-2021 Direct Payment budget announced by the UK Government on 30th December 2019 – and takes no account of the EU annual Pillar 2 funding allocation.

16. While the UK Government announced £243 million in funding for the 2020 Basic (farm) Payment on 30th December 2019, they made no reference to the circa £42 million usually transferred annually to the Pillar 2 (Rural Development) budget.

17. Given that the 15% Pillar transfer is regarded as being available in the year after which it is applied, there is effectively an additional £42 million 'missing' from the £242 million 2021-2022 financial year allocation announced by the UK Government on 25th November 2020 – bringing the total reduction in Wales' 2021-2022 allocation to around £137 million (41%) less than had been anticipated, based on successive promises and the 2019 Conservative Manifesto.

18. The UK Government has pointed out in correspondence to the Welsh Government and FUW that the total EU CAP budget for the period 2021-2027 is €344 billion - €39 billion (10%) less than the €383 billion allocated for the 2014-2020 budgetary period, arguing that this would equate to a £34 million reduction in Wales' annual allocation if the UK was still a member of the EU.

19. One of the reasons that the EU CAP budget has been reduced is because the UK has left the EU and will therefore no longer contribute substantially to the EU budget - so the overall EU 2021-2027 budget is lower than would have been the case if the UK was a member of the EU.

20. However, the number of countries eligible to receive funds from the CAP has also been reduced, as the UK is no longer a member, and the UK previously received around 8% of the EU CAP budget – so the use of the new EU CAP budget in justifications for UK budgets is invalid.

21. Notwithstanding this, if Wales was still eligible to receive the same percentage of the *new* EU (€344 billion) budget as under the 2014-2020 CAP, Wales' share in 2021-2022 would on average be £298 million per year - £56 million (23%) more than was announced by the UK Government on 25th November 2020.

22. While the FUW has labelled Wales' replacement CAP fund allocation as a *'Brexit betrayal',* the Welsh Conservatives have claimed that the Welsh Government has pulled the wool *"...over the Farming Unions [sic] eyes"* and believe that unspent funds from the 2014-2020 CAP budget should be included in the funding calculation.

23. Given that the same funding formula has been applied in England, Scotland and Northern Ireland, the FUW is not alone in believing that the 2021-2022 funding allocations are hundreds of millions below what they should be, based on successive assurances by Secretaries of State and what was stated in the 2019 Conservative Manifesto commitment; those who share the FUW's belief include the Welsh Government, the Scottish Government, the Northern Ireland Executive, NFU Cymru and NFU Scotland.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Bil yr Amgylchedd**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd Bil yr Amgylchedd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020 a chwblhawyd yr ystyriaeth yng nghyfnod pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 26 Tachwedd. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Pwyllgor i'w weld yma:

   https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0220/200220.pdf

## Amcanion Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi ar gyfer y Bil hwn yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE, a darparu hefyd ar gyfer gwella'r amgylchedd mewn ffyrdd penodol, gan gynnwys mesurau ar wastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau, ansawdd aer ac adalw amgylcheddol, dŵr, natur a bioamrywiaeth, a chyfamodau cadwraeth.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch targedau, cynlluniau a pholisïau i wella'r amgylchedd naturiol; ar gyfer datganiadau ac adroddiadau am ddiogelu'r amgylchedd; ar gyfer Swyddfa'r Diogelu'r Amgylchedd; ynghylch gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau; ansawdd aer; ar gyfer adalw cynhyrchion sy'n methu â bodloni safonau amgylcheddol; ynghylch dŵr; natur a bioamrywiaeth; ar gyfer cyfamodau cadwraeth; rheoleiddio cemegau; a dibenion cysylltiedig.

6. Dyma'r cymalau sy'n benodol berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

   - Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol – cymal 19 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a chymal 43 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n gysylltiedig â chymal 19
   - Rhan 3 – Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau – cymalau 47 a 48 (Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) ac Atodlenni 4 a 5, cymalau 49 - 52

(Effeithlonrwydd o ran Adnoddau), cymal 55 (Olrhain gwastraff yn electronig: Prydain Fawr), cymal 57 (Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr), cymal 60 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990), cymal 61 (Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl), cymal 63 (Pwerau gorfodi), cymal 65 (Gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel), cymal 66 (Hysbysiadau Cosb Benodedig), cymal 67 (Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd)

- Rhan 4 – Ansawdd aer ac adalw amgylcheddol – cymal 69 (Fframwaith rheoli ansawdd aer yn lleol), cymal 70 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993)
- Rhan 5 – Dŵr – cymalau 75 a 76 (cynlluniau a chynigion), cymal 77 (Pŵer awdurdod i wneud gwybodaeth yn ofynnol), cymal 79 (Cyflwyno dogfennau'n electronig), cymal 81 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol), cymal 82 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru), cymal 85 (Ansawdd dŵr: dehongli), cymalau 87 – 89 (Draenio tir)
- Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol – cymal 125 (Diwygio'r ddeddfwriaeth ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH))

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

7. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gennym ar 26 Chwefror 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 30 Ionawr 2020.

8. Ar 26 Tachwedd, daeth cyfnod y Bil ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin i ben ar ol bod drwy 21 o sesiynau lle na chafodd yr un o'r 261 o welliannau [nad ydynt yn rhai gan y llywodraeth] a gyflwynwyd eu derbyn. Gwnaed 77 o welliannau'r Llywodraeth i'r Bil, y rhan fwyaf ohonynt yn dechnegol eu natur, megis diwygiadau i ddiweddaru newid enw'r ddeddfwrfa yng Nghymru o 'Gynulliad Cymru' i 'Senedd Cymru' ar ôl i ddarpariaethau newid enwau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ddod i rym. Nid oedd gwelliannau eraill y Llywodraeth yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

9. Cyflwynwyd gwelliant gan y Llywodraeth ar gyfer darpariaeth sy'n cwmpasu 'Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol' ar 11 Tachwedd 2020.

10. Ysgrifennodd y Gweinidog Pow ataf ar 17 Awst 2020 i'm hysbysu bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gynigion i sefydlu gofynion diwydrwydd dyladwy ar gwmnïau sy'n masnachu yn y DU, er mwyn lleihau'r risg o ddadgoedwigaeth anghyfreithlon a throsi tir yn eu cadwyni cyflenwi. Ceisiodd Llywodraeth y DU ystyried sut a phryd i gyflwyno darpariaeth o'r fath gerbron COP26.

11. Yn fy ymateb ar 8 Medi 2020 dywedais ein bod yn cefnogi polisi o'r fath ac yn cydnabod y risgiau o fethu â symud i gynhyrchu nwyddau allweddol yn fwy cynaliadwy. Cadarnhais ein bod o'r farn bod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd.

12. Mae Defra yn honni bod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl yn adran C1, paragraff 65 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithasau busnes. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y ddarpariaeth yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd, diogelu amgylcheddau coedwigaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y mae pob un ohonynt wedi'u datganoli.

13. Mewn gohebiaeth dyddiedig 4 Rhagfyr, cadarnhais fy mwriad i osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol.

**Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae cydsyniad yn ofynnol ar ei gyfer**

14. Cymal 107: 'Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau mawr sicrhau bod y nwyddau sy'n 'risg i goedwigoedd' a ddefnyddiant, y rhai sy'n gallu achosi dadgoedwigaeth ar raddfa eang, wedi'u cynhyrchu'n gyfreithlon.

15. Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn anghyfreithlon i fusnesau o fewn cwmpas ddefnyddio, naill ai wrth gynhyrchu neu fasnachu o fewn y DU, nwyddau sy'n risg i goedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu yn unol â chyfreithiau perthnasol yn y wlad lle cânt eu tyfu.

16. Mae'r ddarpariaeth yn gosod rhwymedigaeth ar fusnesau o fewn cwmpas i gynnal diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad yw nwyddau sy'n risg i oedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu'n gyfreithiol yn mynd i mewn i'w cadwyn gyflenwi, a dylent adrodd ar yr ymarfer yn gyhoeddus.

17. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Llywodraeth y DU ymhellach i godi dirwyon a sancsiynau sifil eraill yn erbyn busnesau sy'n parhau i ddefnyddio nwyddau sy'n peryglu coedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu'n gyfreithlon neu sydd bellach â system gadarn o ddiwydrwydd dyladwy yn ei lle.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

18. Rydym yn cydnabod y gwelliant a wnaed yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

19. Rydym yn cefnogi'r safbwynt polisi a ddarperir gan y ddarpariaeth ond rydym yn anghytuno â dadl Defra bod y ddarpariaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd a ddargedwir fel y nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

20. Yn ein barn ni, mae'r darpariaethau hyn, fel y'u drafftiwyd, yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Byddai'r cymalau yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1.

**Goblygiadau ariannol**

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i'r Senedd ar hyn o bryd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y bil hwn.

**Casgliad**

22. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol defnyddio'r Bil hwn i gyflwyno mentrau y mae'n debygol y bydd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth ar gyfer economi gylchol, yn enwedig pan fydd angen gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig gyda gweinyddiaethau eraill y DU. Yn yr un modd, mae rheoli ansawdd dŵr mewn ffordd effeithiol a rheoleiddio cemegau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn faterion priodol ar gyfer y Bil hwn. Mae'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sy'n ymwneud ag ansawdd aer a draenio tir yn fodd i wneud cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru yn fwy clir, neu mae'r newidiadau a wneir yn rhai gweinyddol eu natur, ac mae'r Bil yn cynnig cyfle amserol i fwrw ymlaen â hwy.

23. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth ychwanegol sy'n ymwneud â 'Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol' yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd ac felly'n ddarpariaeth berthnasol at y dibenion y mae Rheol Sefydlog 29.1 yn gofyn am femorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**Lesley Griffiths AS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Rhagfyr 2020**

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon